




Cyngor Celfyddydau Cymru
Cynllun Gweithredol 2019/20



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Rhagair

Dyma'r Cynllun Gweithredol cyntaf rydym wedi'i gynhyrchu ers cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol mwyaf diweddar - "Er Budd Pawb..." Fel sydd ymhlyg yn ei deitl, mae'r Cynllun yn ail-gadarnhau pwysigrwydd sicrhau y gall mwy o bobl, o holl gymdeithas gyfoes amrywiol Cymru, fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn canolbwyntio ar ein dwy flaenoriaeth, sef sicrhau dull mwy cyfartal o gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, a helpu artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ddod yn gryfach ac yn wytnach. Yn ffodus, nid yw'r ddwy flaenoriaeth hon yn gwrthddweud ei gilydd. Mae gweithgarwch celfyddydol cynaliadwy llwyddiannus yn cyfuno dychymyg ac ansawdd â chydabyddiaeth gynhwysol o hawl pawb i fwynhau bywyd diwylliannol cyfoethog ac amrywiol.

Rydym yn uchelgeisiol dros y celfyddydau yng Nghymru, ond yn realistig ynghylch yr heriau a wynebwn yn y cyfnod cymhleth ac ansicr hwn. Dyna pam mae ein Cynllun Gweithredol yn ymarferol ei gynnwys. Mae'n grynodedd blwyddyn o'r gwaith mae'n rhaid inni ei

gwblhau er mwyn symud ymlaen at gyrraedd ein nodau yn y tymor hirach.

A ninnau'n gorff cyhoeddus, mae'n bwysig bod ein gwaith yn berthnasol, yn ennyn diddordeb ac o ansawdd da. Rhaid inni hefyd gydnabod nad yw'n rhywbeth y gallwn ei wneud ar ein pen ein hunain. Mae'n ddigon hawdd dweud hyn, ond weithiau yn beth anodd ei gyflawni. Serch hynny, rydym yn benderfynol o wneud ein gorau glas i ganfod a gweithio gyda'r partneriaid hynny sydd â'r un nodau â ni.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru sy'n rhoi'r cyd-destun. Drwy gydweithredu â'n cydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus, byddwn yn fwy tebygol o sicrhau y Gymru fwy llewyrchus a theg rydym ni i gyd eisiau ei gweld.

Mae ein blaenoriaethau'n rhai gwirioneddol a diffuant. Ni ddylid ystyried amrywiaeth, cydraddoldeb a gwytnwch yn broblemau i ymdrin â nhw ond yn hytrach yn ysgogwyr sylfaenol i'n dyfodol creadigol. Dylem wynebu'r flwyddyn i ddod â'r ymrwymiad hwnnw'n ganolog i'n gwaith.



Phil George

Phil George
Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru



Nick Capaldi

Nick Capaldi
Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru



Dewch i ddatlu! Digwyddiad Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau
(llun: Tom Martin, Wales News Service)

Cynnwys

Pwy ydym ni	2
Yr hyn a wnawn	4
Ein gweledigaeth a'n strategaeth	7
Ein prif raglenni gwaith yn 2019/20	10
Bod y gorau y gallwn fod	19
Atodiadau	
1. Gwybodaeth ariannol	21
2. Portffolio Celfyddydol Cymru	23
3. Strwythur Llywodraethu	59
4. Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru 2019/20	60

Pwy ydym ni

Ni yw sefydliad ariannu a datblygu swyddogol y wlad ar gyfer y celfyddydau. Llywodraeth Cymru yw ein prif noddwr. Rydym hefyd yn dosbarthu arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol lle y gallwn o ffynonellau cyhoeddus eraill a'r sector preifat.

Gan gydweithio â Llywodraeth Cymru, rydym yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r cyfraniad pwysig mae'r celfyddydau yn ei wneud i Gymru.

Rydym eisiau meithrin amgylchedd lle gall y celfyddydau ffynnu - amgylchedd sy'n canfod ac yn meithrin talent greadigol, lle bynnag y'i ceir yng Nghymru, i'w photensial llawn. Caiff ein gwaith ei lywio gan yr egwyddorion sy'n llywodraethu ein gwaith fel corff cyhoeddus. Dyma'r egwyddorion sy'n arwain yr hyn a wnawn. Maent yn gosod y safonau y dylech eu disgwyl oddi wrthym ac ansawdd y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym. Maent yn llywio'r ffordd yr ydym yn ymddwyn - gyda'n hunain a gyda chi.



1

Bod yn feiddgar ac yn greadigol

Rydym yn cefnogi'r celfyddydau gorau a mwyaf cyffrous sydd gan Gymru i'w cynnig. Drwy greu amgylchedd lle gall y celfyddydau ffynnu, rydym yn helpu artistiaid a sefydliadau celfyddydol i gyflawni eu gwaith gorau.

2

Gweithio dros bawb

Rydym eisiau i gynifer o bobl ag sy'n bosibl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau, boed yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mewn gwlad sy'n deg ac yn gyfartal credwn y dylai'r celfyddydau fod ar gael yn helaeth ac yn rhwydd i bawb. Rydym yn benderfynol o hyrwyddo chwalu'r rhwystrau sy'n atal hyn rhag digwydd ar hyn o bryd.

3

Ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd

A ninnau'n gorff cyhoeddus rhaid inni fod yn geidwaid effeithiol ac atebol cyllid cyhoeddus. Nid ydym yn ddi-hid gydag arian y cyhoedd. Rydym yn ymddwyn ag onestrwydd, uniondeb a thegwch. Rydym yn esbonio'n eglur ac yn agored y penderfyniadau a wnawn, ac yn sicrhau bod y buddsoddiadau ariannu a wnawn yn rhoi gwerth da am arian.

4

Bod y gorau y gallwn fod

Wrth wraidd unrhyw sefydliad llwyddiannus mae pobl llawn symbyliad a brwdfrydedd. Rydym yn parchu ac yn annog ein gilydd. Rydym yn dechrau pob dydd gydag agwedd gadarnhaol a pharodrwydd i dyfu, dysgu a herio ein hunain. Rydym yn dysgu oddi wrth ein gilydd, ac oddi wrth y bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw. Gan gydweithio rydym yn cyflawni canlyniadau sy'n gwneud gwahaniaeth.

5

Meddwl am y tymor hir

Mae llawer o unigolion a sefydliadau'n rhannu ein Gwerthoedd. Bydd Cymru'n lle gwell os byddwn yn cydweithredu ac yn cydweithio, gan rannu'r gorau o'n gwybodaeth a'n harbenigedd. Rydym yn ymwybodol o'n lle yn y byd, ac o'n cyfrifoldeb i'r blaned ac i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn gweithio mewn ffyrdd sy'n arddangos y gorau o ran datblygu cynaliadwy ac atal niwed yn y dyfodol.

6

Bod yn falch o'r hyn a wnawn

Bob dydd gwelwn waith pwysig ac eithriadol. Mae'r celfyddydau'n dod ag ystyr, dilysrwydd a mwynhad i'n bywydau beunyddiol. Maent yn creu ac yn cynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, yn dod â phobl ynghyd, yn gwella ansawdd ein bywydau. Mae'r celfyddydau'n bwysig. Byddwn yn cyfathrebu yn eglur ac yn agored, gan adrodd hanesion ein cyflawniadau.



Edrychwch ar yr animeiddiad byr hwn sy'n esbonio pam Mae'r Celfyddydau'n Cyfri

Yr hyn a wnawn



rydym yn cefnogi ac yn datblygu gweithgarwch celfyddydol o ansawdd da – rydym yn buddsoddi arian cyhoeddus, gan ddefnyddio'r arian hwn i greu cyfleoedd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Mae hyn yn cynnwys cymorth i rwydwaith ar draws y wlad o sefydliadau celfyddydol pwysig, sef Portffolio Celfyddydol Cymru, gan ddarparu mynediad drwy'r flwyddyn gron i gyfleoedd celfyddydol o ansawdd da



rydym yn dosbarthu arian oddi wrth y Loteri – drwy geisiadau i raglenni ariannu'r Loteri, mae modd inni ariannu prosiectau sy'n datblygu gweithgarwch celfyddydol newydd, gan gynorthwyo unigolion, cymunedau a sefydliadau



rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol am y celfyddydau – ni yw canolbwynt cenedlaethol rhwydwaith o wybodaeth ynghylch y celfyddydau yng Nghymru. Mae gennym hefyd gysylltiadau rhyngwladol cryf yn y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt. Drwy ein Cyngor, ein staff a'n Cydweithwyr Celfyddydol, mae gennym y casgliad mwyaf o arbenigedd yn y celfyddydau yng Nghymru



rydym yn codi proffil y celfyddydau yng Nghymru – ni yw'r llais cenedlaethol i'r celfyddydau yng Nghymru, gan hyrwyddo ansawdd, gwerth a phwysigrwydd artistiaid a sefydliadau celfyddydol y wlad



rydym yn cynhyrchu mwy o arian i economi'r celfyddydau – rydym yn rheoli mentrau megis *Cynllun Casglu* (ein cynllun i annog rhagor o bobl i brynu celf); rydym yn sicrhau cyllid Ewropeaidd i dyfu'r celfyddydau yng Nghymru; ac mae gennym bresenoldeb mewn digwyddiadau rhyngwladol gartref ac mewn gwledydd tramor sy'n agor marchnadoedd newydd i artistiaid o Gymru



rydym yn hybu arloesi ac arbrofi – rydym yn hybu prosiectau a mentrau sy'n trawsnewid y celfyddydau yng Nghymru. O'n partneriaeth addysg gelfyddydol gyda Llywodraeth Cymru (Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau) i newid technolegol (Ymchwil a Datblygiad Digidol), rydym yn chwilio o hyd am ffyrdd newydd i bobl ddod ar draws y celfyddydau a'u darganfod



rydym yn dylanwadu ar gynllunwyr a phenderfynwyr – mae'r celfyddydau'n digwydd mewn llawer o sefyllfaoedd gwahanol. Gallant gael effaith ddramatig ar ansawdd bywydau pobl, a'r lleoedd maent yn byw a gweithio ynddynt.

Mae'r celfyddydau hefyd yn aml yn ganolog i fentrau adfywio economaidd a chymdeithasol. Ein gwaith ni yw sicrhau bod y cyfraniad y gall y celfyddydau ei wneud yn cael ei gydnabod



rydym yn datblygu cyfleoedd rhyngwladol yn y celfyddydau – drwy ein hasiantaeth arbenigol, *Celfyddydau Rhyngwladol Cymru*, rydym yn datblygu partneriaethau â sefydliadau diwylliannol megis British Council, yn hyrwyddo diwylliant cyfoes Cymru yn rhyngwladol, ac yn hybu cyfnewid a chydweithio rhyngwladol rhwng artistiaid a sefydliadau celfyddydol



rydym yn hyrwyddo perfformiadau graddfa fach mewn cymunedau lleol – mae ein cynllun *Noson Allan* yn darparu cymhellion ariannol i annog hyrwyddo gweithgarwch celfyddydol o ansawdd da mewn lleoliadau cymunedol lleol ledled Cymru




rydym yn cyflawni ein holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg – cyfrifoldeb a ddiffinnir drwy statud



**Gwneud y celfyddydau'n ganolog i
fywyd a llesiant y genedl. Ein Gweledigaeth**

Ein strategaeth

Mae sylfaen ein strategaeth wedi'i seilio ar egwyddorion Creu: Cyrraedd: Cynnal.



Mae'r geiriau'n syml ond mae ystyr iddynt.

Mae gennym ddiddordeb yn y ffordd mae'r ystyron hyn yn cyd-asio – gan atgyfnerthu ei gilydd mewn un ymdeimlad o bwrpas. Mae creu celf, sicrhau ei bod yn cysylltu a chreu etifeddiaeth hirbarhaol ar ei chyfer, oll yn rhan o'r un darlun.

O greadigrwydd sydd wedi'i wreiddio'n lleol yn y gymuned i'r gweithgarwch rhyngwladol sy'n diffinio Cymru i weddill y byd, mae sylfeini'r creadigrwydd hwnnw ynom ni i gyd.

Rydym yn uchelgeisiol dros y celfyddydau yng Nghymru. Ein strategaeth yw adeiladu gwlad lle caiff ein doniau gorau eu datgelu, eu meithrin a'u rhannu; gwlad lle mae'r croestoriad ehangaf posibl o bobl yng Nghymru'n cael ei alluogi i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau; gwlad lle mae gwaith rhagorol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal.

Mae dwy flaenoriaeth sy'n sail i'n gweledigaeth, sef:

1

Hybu Cydraddoldeb fel y sylfaen i ymrwymiad clir i ymgyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru

2

Cryfhau Gallu a Gwytnwch y sector, gan ei gwneud yn bosibl i dalent greadigol ffynnu

Mae'r Cyngor hefyd wedi diffinio sut mae eisiau i Gyngor y Celfyddydau ymddwyn wrth gyflawni'r ddwy flaenoriaeth hyn:

3

Ei gwneud yn bosibl i Gyngor y Celfyddydau weithio'n fwy effeithiol, gan gydweithredu mewn modd mwy dychmygus â phartneriaid o'r un anian ledled Cymru

Mae'r blaenoriaethau hyn yn llywio'r gwaith o gyflawni amcanion allanol a mewnol drwy gyfres o dasgau manylach a geir yn y Cynllun Gweithredol hwn. Caiff ein Gwerthoedd eu llywio gan y pum ffordd o weithio a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar lesiant: Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys. Caiff y tasgau manylach eu mapio yn erbyn y saith nod llesiant:

Cymru lewyrchus:
Ffyniant



Cymru gydnerth:
Gwytnwch



Cymru iachach:
Iechyd



Cymru sy'n fwy cyfartal:
Cydraddoldeb



Cymru o gymunedau
mwy cydlynus:
Cymuned



Cymru â diwylliant bywiog lle
mae'r Gymraeg yn ffynnu:
Diwylliant



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:
Byd-eang



Nodir yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gennym yn y Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2019/20 yn nodi 4 maes gweithgarwch blaenoriaethol (y nodir eu manylion isod) i Lywodraeth Cymru.

1. Cymru unedig a chysylltiedig
2. Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu
3. Cymru ffyniannus a diogel
4. Cymru iach ac egniol

Mae cyflawni blaenoriaethau'r Llythyr Cylch Gwaith yn ofyniad allweddol. Caiff y blaenoriaethau hyn eu cyflawni drwy'r rhaglen waith a nodir yn y Cynllun hwn.



Reflections, ffilm gan Fearghus Ó Conchúir, perfformiwyd gan gyfranogwyr o ddsbarth Dawns i Parkinsons yng Nghaerdydd, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (llun: Jonathan Dunn)

Ein prif raglenni gwaith yn 2019/20

Nodyn esboniadol – sut yr ydym yn disgrifio'r hyn a wnawn

Rydym ni eisiau i'r Cynllun hwn fod yn hawdd i'w ddarllen a'i ddeall. Sefydliad prysur ydym ni sydd wrthi'n cyflawni llawer o dasgau. Fodd bynnag, mae'n bwysig mewn dogfen fel hon inni dynnu sylw at y nifer lai o gamau gweithredu allweddol a fydd yn dangos yn fwyaf clir ein cynnydd wrth gyflawni ein nodau cyffredinol.

Mae ein rhaglenni gwaith yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor a hefyd gofynion ein Llythyr Cylch Gwaith oddi wrth Lywodraeth Cymru. Ym mhob maes rydym yn nodi ein 3 phrif gam gweithredu – 21 i gyd.

Mae'r camau gweithredu allweddol isod yn disgrifio ein camau gweithredu lefel uwch sy'n

wynebu allan. Y rhain yw'r datganiadau syml o fwriad sy'n nodi'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. O dan y rhain mae tasgau manylach, pob un â dangosyddion llwyddiant mesuradwy. Mae'r rhain yn cynnwys manylion ein gwaith rheoli gweithredol, y gwasanaethau busnes, ariannol a swyddfa hanfodol sy'n sail i'r gwaith o gyflawni ein nodau'n llwyddiannus. Hon yw'r wybodaeth hanfodol a ddefnyddiwn yn fewnol i ysgogi a rheoli ein gwaith.

Ar ddiwedd pob chwarter drwy gydol y flwyddyn rydym yn adolygu ein cynnydd yn erbyn ein targedau allweddol. Caiff hyn ei adolygu gan ein Cyngor a'i drafod gyda Llywodraeth Cymru.

Rhoddir crynodeb o'n rhaglenni gwaith allweddol isod.



Ehangu ymgysylltiad

Er mwyn inni gynyddu cynulleidfaoedd ar gyfer y celfyddydau, mae angen inni newid dirnadaeth y cyhoedd o'r celfyddydau – sut maen nhw'n cael eu creu ac i bwy maen nhw. Ond nid dim ond cynyddu'r niferoedd yw ein diben, er mor bwysig yw hynny. Rhaid ymestyn allan at y rheiny nad ydyn nhw'n gweld eu hunain fel cynulleidfaoedd celfyddydau traddodiadol eto. Ac mae'n rhaid newid nid yn unig y ffordd yr ydym yn gweld cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau, ond hefyd y math o gelfyddydau yr ydym yn eu cefnogi. Mae angen inni newid, gan wneud mwy i gydnabod hunan-fynegiant a diddordebau diwylliannol unigolion a chymunedau – creadigrwydd beunyddiol.

Gall diffiniadau traddodiadol o ddiwylliant, creadigrwydd a'r celfyddydau fod yn rhwystrau ynddynt eu hunain weithiau i bobl gymryd rhan. Mae angen inni wneud yn siŵr bod ein cyllid yn cefnogi gwahanol fathau o gelfyddydau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'i fod yn cyrraedd amrywiaeth fwy o artistiaid a chymunedau. Rydym ni eisiau i fwy o bobl yng Nghymru allu dewis gwneud y celfyddydau'n rhan arferol o'u bywydau.

Bydd y celfyddydau yng Nghymru yn gryfach, yn fwy cyffrous ac yn fwy perthnasol os byddant yn coleddu ysbrydoliaeth a phrofiadau bywyd croestoriad mwy amrywiol o bobl. Mae tuedd o hyd i'r celfyddydau gael eu hystyried yn rhywbeth i'r bobl fwyaf breintiedig yn ein cymdeithas. Rydym ni eisiau newid hyn.

Pa un ai mynychu'r celfyddydau, cymryd rhan neu weithio ynddynt fel artist, cyflogai neu aelod o fwrdd, mae angen i boblogaeth ehangach Cymru gael ei chynrychioli. Rydym wedi gosod targedau penodol, a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol.

Rydym yn mabwysiadu ymagwedd sylfaenol wahanol at ein gwaith – un lle mae angen

inni wneud yn siŵr ein bod yn gweithio gyda'r unigolion a chymunedau rydym eisiau ymgysylltu â nhw. Mae egwyddor hir-sefydledig ym maes celfyddydau anabledd sy'n pwysleisio ei bod yn hanfodol i'r bobl rydym yn ceisio eu cyrraedd gael eu cynnwys a'u gweld, sef "dim byd amdanom ni hebom ni". Dyma egwyddor a ddylai ymestyn ar draws ein holl feysydd gwaith.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Cwblhau gwaith ymchwil a gyflawnwyd gan y fenter gymdeithasol 64 million artists i ganfod gwahanol fodolau ymgysylltu â'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau a fydd yn edrych ar ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydym yn cysylltu â nhw ar hyn o bryd.
2. Ymchwilio i, ymgynghori ar a hybu prosiectau datblygu'r gweithlu sy'n cynyddu nifer y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac anabl a all greu gwaith, datblygu eu sgiliau proffesiynol a dod o hyd i gyflogaeth yn y celfyddydau yng Nghymru. Ein nod yw i fwy o bobl o gefndiroedd amrywiol allu gweithio yn y celfyddydau fel gweithwyr proffesiynol creadigol, fel cyflogeion, neu fel aelodau o strwythurau llywodraethu.
3. Cynnal ymgyrch gyhoeddus sy'n hyrwyddo ein hymrwymiad i weithio tuag at Gymru fwy cyfartal a chynhwysol. Rydym eisiau codi proffil yr uchelgeisiau a geir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol mewn ffordd weledol sy'n denu sylw.

Gwytnwch a chynaliadwyedd

Rydym eisiau hybu creu celfyddydau cyffrous o ansawdd da. Rydym yn helpu i wneud hyn drwy greu amgylchedd cefnogol lle mae artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn fwy tebygol o ffynnu – amgylchedd sydd:

- yn adnabod ac yn meithrin talent greadigol, lle bynnag y'i ceir yng Nghymru, i'w photensial llawn
- yn cefnogi ac yn dathlu dychymyg, arloesedd ac uchelgais
- yn meithrin creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- yn ei gwneud yn bosibl i artistiaid ddatblygu gyrfa broffesiynol yng Nghymru
- yn rhoi i unigolion a sefydliadau y sgiliau a'r wybodaeth i fanteisio ar farchnadoedd newydd
- yn rhyngwladol o ran golygon

Mae hon yn agwedd allweddol ar ein cenhadaeth datblygu'r celfyddydau. Ond mae'n genhadaeth sy'n dod o dan straen pan fo adnoddau'n prinhaus.

Rydym yn credu'n llwyr ym mhwysigrwydd buddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau. Fodd bynnag, mewn cyfnod o gyni ni allwn anwybyddu'r cyd-destun economaidd ehangach. Rydym yn parhau i wneud popeth a allwn i ddarbwyllo partneriaid ariannu i ddal yn ffyddlon i'r celfyddydau. Ond rhaid inni hefyd hybu mwy o wtnwch a chynaliadwyedd; lleihau'r graddau mae'r celfyddydau'n dibynnu ar gyllid cyhoeddus, gan eu helpu nhw (a ninnau) i ennill yr incwm mwyaf posibl. Mae hyn yr un mor bwysig i'r artistiaid unigol ag ydyw i sefydliadau.

I wneud hyn mae angen arweinyddiaeth entrepreneuraidd a chryf. Mae hyn yn golygu meithrin sector sy'n ddychmyglon ac yn arloesi ac a all fanteisio ar y buddsoddiad cyhoeddus ynddo. Mae'r sefydliadau gorau yn gwneud hyn eisoes, ond rydym yn benderfynol o godi ein holl sefydliadau allweddol i safon y goreuon.

Mae sefydliad gwydn wedi'i wreiddio'n ddwfn a chlos yn y gymuned mae'n ei gwasanaethu ac yn mabwysiadu model busnes a all wrthsefyll newid, boed wedi'i gynllunio neu annisgwyl. Mae gan sefydliad gwydn y sgiliau, y gallu a'r adnoddau i oroesi yn y tymor hirach.

Mae gennym ffyrdd hir-sefydledig o ddiwallu anghenion sefydliadau unigol o ran gwytnwch fesul achos unigol. Fodd bynnag, weithiau mae yna broblemau mwy systemig mewn sector, neu hyd yn oed ffurf gelf benodol. Er enghraifft, mae gennym ymrwymiad hirsefydlog i hybu creu mwy o waith drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig theatr Gymraeg. Mae hwn yn faes sy'n destun pryder ers amser maith ac rydym yn benderfynol o weld cynnydd dangosadwy eleni.

Ond mae gennym broblemau sectorol mewn manau eraill. Ym maes dawn, er enghraifft, gellir nodi cyflawniadau llwyddiannus iawn y sefydliadau yn ein Portffolio. Fodd bynnag, yn y maes cyfan mae'r sefyllfa'n fwy bregus. Mewn enghreifftiau fel hyn, bydd gwytnwch yn dibynnu ar fynd i'r afael â rhai o'r problemau strategol ehangach sy'n atal cynnydd.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Cwblhau a gwerthuso'r rhaglen "Gwynwch" bresennol a datblygu cynllun olynol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl cysoni ein gwaith yn y dyfodol ag anghenion y sector.
2. Ymchwilio ac adnabod y camau gweithredu mae eu hangen i gryfhau sectorau allweddol yn y celfyddydau yng Nghymru. Rydym ni eisiau cael seilwaith cadarn a gwydn sy'n hybu cyfleoedd i artistiaid, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yn hyderus. Rydym yn arbennig o awyddus i gamau ymarferol gael eu cymryd yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â diffygion ym maes theatr Gymraeg.
3. Deall anghenion presennol sector ehangach y celfyddydau er mwyn llywio gwaith datblygu busnes a mentrau cyllid nad yw'n gyhoeddus. Byddwn yn helpu i ganfod a chynyddu adnoddau ariannol, digidol a ffisegol newydd i'r celfyddydau yng Nghymru.

Llwybrau Creadigol

Nid yw pysgod ond mor iach â'r dŵr maen nhw'n nofio ynddo. Mae ar artistiaid a sefydliadau celfyddydol angen amgylchedd cefnogol i ffynnu. Byddwn yn chwarae rhan gliriach a mwy entrepreneuriaidd wrth ganfod, meithrin a hyrwyddo doniau creadigol gorau ein gwlad ar draws pob math o gelfyddyd, ac ar bob cam yn y datblygiad proffesiynol. (Bydd sicrhau aliniad agos â cham 2 uchod o dan "Ehangu ymgysylltiad" yn hollbwysig i hyn.)

Gwyddom y gallwn ddarparu cefnogaeth ar adegau allweddol yng ngyrfa artist. Pa un ai gweithio'n unigol neu ynghyd, yn lleol neu'n fyd-eang, ein nod yw creu'r amgylchiadau lle rhoddir i'n hartistiaid y sgiliau a'r cyfleoedd i ddilyn gyrfaedd cynaliadwy, hyfyrw o fan gweithio yng Nghymru.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Ymchwilio, datblygu a hyrwyddo dewislen gynhwysol o gyfleoedd i artistiaid a gweithwyr proffesiynol creadigol unigol. Rydym ni eisiau datblygu dull mwy cynhwysfawr o ddatblygu sgiliau, o ddoniau sy'n dod i'r amlwg i weithwyr proffesiynol sefydledig.
2. Sefydlu partneriaethau gydag o leiaf dau sefydliad neu ddarparwr arbenigol i gynyddu cyfleoedd hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chyflogadwyedd yn y sector celfyddydol a chreadigol. Rydym ni eisiau gweithio gyda phartneriaid sy'n rhannu ein blaenoriaethau o ran cydraddoldeb.
3. Disgwyl i'n Cwmnïau Cenedlaethol ddatblygu rhaglen ragorol o interniaethau, prentisiaethau a mentora. Rydym ni eisiau i'n Cwmnïau Cenedlaethol gael eu cydnabod yn arweinwyr yn eu maes.

Y Celfyddydau ac Iechyd

Mae pwysigrwydd y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn cael ei dderbyn fwyfwy. Drwy weithgarwch prosiect yr ydym wedi'i gefnogi o'r blaen rydym wedi gallu dangos bod gwaith y Celfyddydau ac Iechyd yn cael effaith fuddiol ar draws holl ystod oedran, dosbarth a daearyddiaeth yng Nghymru.

Bach yw ein hadnoddau o ran Iechyd. Dyma pam ein bod yn glir ynghylch ble bydd ein hymyriadau yn cael yr effaith fwyaf. Mae'n hollbwysig alinio ein gwaith â blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Byrddau Iechyd ac ymateb i'r her o greu ymyriadau y gellir eu cynyddu i raddfa fwy ym meysydd allweddol llesiant ac Iechyd poblogaeth Cymru. Bydd yn hanfodol defnyddio dull partneriaethol er mwyn i'n strategaeth lwyddo.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Meithrin gallu yn y Byrddau Iechyd ledled Cymru. Byddwn yn buddsoddi mewn recriwtio a chynorthwyo arbenigwyr proffesiynol a all hybu ein blaenoriaethau ym maes y Celfyddydau ac Iechyd.
2. Comisiynu Y Lab (Nesta a Phrifysgol Caerdydd) i gydweithio i ddeall sut y gall ymyriadau celfyddydol chwarae rhan fwy blaenllaw yn Iechyd a Lles pobl Cymru. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall yn well ble mae angen syniadau newydd er mwyn gwneud i hyn ddigwydd.
3. Gweithio gyda phartneriaid i roi ar waith yr argymhellion a nodir yn yr Adroddiad Mapio. Bydd dwyn ynghyd partneriaid o'r un anian yn ei gwneud yn fwy tebygol y gellir gwireddu ein huchelgeisiau.

Pobl Ifanc a Dysgu Creadigol

Gall ymgysylltu'n weithredol â'r celfyddydau weddnewid y ffordd mae plant a phobl ifanc yn dysgu ac yn ymchwilio i'r byd o'u cwmpas. Gall newid y ffordd maen nhw'n gweld eu hunain – hyd yn oed beth maen nhw'n breuddwydio amdano ar gyfer y dyfodol – yn ogystal â'u helpu i feithrin yr hunan-barch a'r hunan-werth a fydd yn rhan mor bwysig o'u sgiliau bywyd yn y dyfodol. O'r oedran ifancaf ystyrir Llythrennedd a Rhifedd yn seiliau i lwyddiant academaidd.

Mae llwyddiant mewn bywyd yn dibynnu ar fwy na hynny – sef integreiddio Creadigrwydd. Mae ein strategaeth yn parhau i arloesi ffyrdd y gall mwy o ysgolion fanteisio ar ffyrdd ymarferol o ddod â chyffro ac ysbrydoliaeth y celfyddydau i'r ystafell ddosbarth fel sydd wedi'u hymgorffori yn ein rhaglen Dysgu Creadigol. Mae Dysgu Creadigol wedi herio'r Llywodraeth i wneud y celfyddydau'n ganolog i'r cwricwlwm ysgol. Mae wedi herio Cyngor y Celfyddydau i harneisio pŵer y celfyddydau i ailfywiogi'r diwrnod ysgol a thrwy datblygiad proffesiynol uchelgeisiol i ailgynnu creadigrwydd athrawon hwythau.

Mae gennym lawn gymaint o ddi-ddordeb yn y rheiny sydd o dan anfantais ac sy'n cael eu hanwybyddu – y rheiny sydd, am ba reswm bynnag, wedi cael eu gwahanu o addysg a hyfforddiant prif-ffrwd ac sydd mewn perygl o fynd ar goll yn y system bresennol.

Felly mae ein dull o weithio'n canolbwyntio ar ddau amcan: cynorthwyo ein pobl ifanc i ddatblygu eu doniau creadigol; a meithrin amgylchedd lle gall y doniau hynny gael eu hadnabod, eu hysbrydoli, eu meithrin a'u dathlu.

Rydym ni eisiau i gynifer o bobl ifanc ag sy'n bosibl yng Nghymru gredu bod yna gyfle iddyn nhw fod y gorau y gallan nhw fod neu y maen nhw eisiau bod, gan berfformio gyda'u cyfoedion ar y lefel uchaf, a dathlu ac arddangos eu doniau creadigol. Yn anad dim, rydym ni eisiau i bobl ifanc gael y cyfle i fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol maen nhw'n ei gael yn berthnasol, yn gyfoes ac yn gyffrous.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Rhoi ar waith flwyddyn olaf Dysgu Creadigol, gan ddatblygu cynigion ar gyfer cyfnod arall i fynd ag elfennau allweddol o'r rhaglen ymlaen i 2022. Rydym ni eisiau dod o hyd i ffyrdd creadigol o ymateb i'r galw sy'n parhau am y rhaglen hon oddi wrth ysgolion ledled Cymru.
2. Cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm newydd sy'n gwneud Creadigrwydd a'r Celfyddydau Mynegiannol yn ganolog iddo. Rydym ni eisiau helpu i sicrhau lle'r celfyddydau ym mywyd pob dydd yr ysgol.
3. Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn strategaethau ar draws gwaith ehangach y Cyngor. Rydym ni eisiau i fwy o bobl ifanc greu gwaith, mwynhau'r celfyddydau a datblygu'r sgiliau a fydd yn eu galluogi i gyfrannu at y gwaith o weinyddu a rheoli'r celfyddydau.

Rhyngwladol

Mae gweithio'n rhyngwladol yn allweddol wrth ddatblygu gwlad ddynamig a chyffrous, agored a chroesawgar, y mae creadigrwydd yn ganolog iddi.

Ein celfyddydau, ein diwylliant a'n hieithoedd sy'n rhoi i Gymru ei phersonoliaeth fyd-eang unigryw. Mae'r cyd-destun diwylliannol unigryw hwn yn taro tant gyda llawer o ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol eraill a gellir uniaethu â'n stori mewn llawer o fannau o gwmpas y byd. Bydd hyn yn un o nodweddion amlwg ein gwaith mewn perthynas â Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO.

Rydym ni eisiau creu cyd-destun diwylliannol newydd sy'n meithrin dealltwriaeth a goddefgarwch rhyngwladol drwy ymgysylltu â'r cymunedau rhyngwladol amrywiol yng Nghymru. Nid yw'n ddigon inni weld gweithio rhyngwladol fel cyfle i 'ecsbloetio', rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd o roi yn ôl a chyfoethogi cysylltiadau diwylliannol. Daw hyn yn bwysicach byth ar ôl Brexit lle mae'n rhaid inni ailddiffinio ein perthynas ag Ewrop.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Cynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda'r gwaith o ddatblygu a gwireddu ei strategaeth a blaenoriaethau rhyngwladol. Byddwn yn cydgysylltu ac yn drafftio cynnwys y "bennod" yn y strategaeth ar Ddiwylliant a'r Celfyddydau ac yn cefnogi rhaglen gweithgarwch yng Nghymru ar gyfer Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO.
2. Rhoi ar waith y camau gweithredu yn Strategaeth Ryngwladol Cyngor y Celfyddydau. Byddwn yn cynorthwyo artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ddod yn "barod ar gyfer y farchnad" er mwyn achub ar gyfleoedd rhyngwladol, gan feithrin gallu sector celfyddydol Cymru i ymgysylltu a chyfranogi'n rhyngwladol.
3. Codi pontydd diwylliannol gyda chymunedau rhyngwladol sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Dylai agwedd ryngwladol hefyd ein helpu i ddeall ac ymgysylltu'n well â'r cymunedau amrywiol sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru.

Deall effaith ein buddsoddiad

Mae ymchwil a gwerthuso yn rhan hanfodol o'n gwaith. Mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer ein gwaith wrth roi polisiâu ar waith a'u monitro, gan roi inni well dealltwriaeth o effaith ein gwaith ariannu a datblygu.

Rydym ni eisiau i fwy o bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Dylem bob amser fod yn ofalus gyda niferoedd amlwg, ond eto i gyd mae'n bwysig inni allu asesu i ba raddau mae poblogaeth Cymru'n ymgysylltu â'r celfyddydau. Bydd hyn yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar ein gwaith adrodd.

Tîm ymchwil bach sydd gennym, felly bydd yn bwysig inni feithrin partneriaethau er mwyn ehangu a gwella ein gallu o ran ymchwil. Ar hyn o bryd rydym yn casglu ac yn cadw llawer o ddata, ac mae'n rhaid inni integreiddio a rhannu ein defnydd o'n data er mwyn sicrhau'r wybodaeth, gwaith adrodd ac arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl i'r sefydliad.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Cyhoeddi ymchwil sy'n dangos effaith buddsoddiad Cyngor y Celfyddydau. Rydym ni eisiau gallu asesu perfformiad Portffolio Celfyddydol Cymru a'r canlyniadau mae arian y Loteri yn eu cyflawni.
2. Cyhoeddi ymchwil sy'n disgrifio i ba raddau mae'r cyhoedd yng Nghymru'n mynychu ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau. Rydym ni eisiau cael darlun cliriach o ble mae angen inni ganolbwyntio ein hymdrechion wrth ddatblygu cynulleidfaoedd.
3. Cyhoeddi mwy o'r data yr ydym yn eu casglu. Dylem fod yn gwneud mwy i gynorthwyo artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ddeall yn well pwy sy'n cymryd rhan yn eu gweithgarwch.

Bod y gorau y gallwn fod... ...ei gwneud yn bosibl i ni fel sefydliad lwyddo

Yn briodol ddigon, mae'r cyhoedd yn mynnu bod y sefydliadau mae'n eu hariannu yn effeithlon ac yn gost effeithiol. Oherwydd y cawn ein hariannu gan y cyhoedd, rhaid inni allu dangos y budd mae ein gwaith yn ei ddarparu, ac i ba raddau yr ydym yn gwneud gwahaniaeth. Dros lawer o flynyddoedd rydym wedi arbed arian drwy symleiddio prosesau, lleihau nifer y staff a defnyddio technoleg yn well. Rydym ni'n gwneud hyn eto yn awr.

Ein nod yw creu sefydliad mae'r celfyddydau'n ganolog iddo – yn rhagorol o ran ei gyflawniad ac yn gynaliadwy o ran ei gost.

Nodir prosiectau mewnol allweddol isod.

Rheolaeth ariannol

Byddwn:

- yn sefydlu Anthem, Cronfa Gerdd Cymru, fel corff cynaliadwy annibynnol
- yn gwella ein systemau rheolaeth ariannol a'n gwaith adrodd ariannol
- yn darparu cymorth a chyngor ariannol allweddol wrth gyflawni ein prif raglenni strategol
- yn cael barn archwilio ddiamod ar ein dwy set o gyfrifon statudol blynyddol

Rheoli grantiau

Byddwn:

- yn gwella ein prosesau ar gyfer rheoli ceisiadau am grantiau drwy roi ar waith system ar-lein ddiwygiedig o reoli grantiau

Strategaeth ariannu

Byddwn:

- yn cwblhau'r ymgynghoriad ar y Loteri ac yn ailgynllunio rhaglenni ariannu
- yn paratoi'r briff a chylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi nesaf
- yn alinio Portffolio Celfyddydol Cymru yn agosach â'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol Cyngor y Celfyddydau

TGCh

Byddwn:

- yn cwblhau'r gwaith o uwchraddio Windows 10
- yn cyflwyno Office 365
- yn uwchraddio i SharePoint 2016.
- yn cwblhau'r gwaith o adnewyddu caledwedd ein technoleg TGCh a symudol

Cyfathrebu

Byddwn:

- yn cyfleu'r Weledigaeth Gorfforaethol a disgwyliadau'r Cyngor – yn fewnol ac yn allanol
- yn gwella ein presenoldeb/gallu digidol drwy wefan newydd
- yn gwreiddio ac yn gwireddu ein Strategaeth Cyfathrebu – yn fewnol ac yn allanol

Cyfleusterau

Byddwn:

- yn adnewyddu ein swyddfa yng Nghaerdydd er mwyn gwneud y mwyaf o botensial ein swyddfa lai
- yn cwblhau gwaith adfer ar y swyddfa yng Nghaerfyrddin

Adnoddau Dynol

Byddwn:

- yn cwblhau'r gwerthusiad o'n holl swyddi
- yn cyflwyno strwythur cyflogau a graddau newydd
- yn ymchwilio i fentrau i sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith aelodau a staff y Cyngor, ac yn eu rhoi ar waith
- yn cyflwyno rhaglen Prentisiaethau

Arbenigedd allanol yn y celfyddydau

Byddwn:

- yn creu rôl hyfyw i'n grŵp newydd o Gydweithwyr Celfyddydol ac yn gwneud rhagor o waith recriwtio i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran arbenigedd
- yn canfod rhwydweithiau newydd o bartneriaid a chydweithwyr celfyddydol

Llesiant a Diwylliant Mewnol

Byddwn:

- yn diwygio ac yn gwreiddio ein gwerthoedd mewnol
- yn sicrhau amgylchedd swyddfa a ffyrdd o weithio sy'n ymarferol, yn effeithlon ac yn gadarnhaol
- yn cefnogi datblygiad parhaus i'r staff drwy ein Rhaglen Dysgu a Datblygu

Atodiad 1: Gwybodaeth Ariannol

Cymorth Grant

Mae cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cefnogi Portffolio Celfyddydol Cymru, rhaglenni strategol a chyfran o'n costau cynnal. Mae'r cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru'n ddigyfnewid (£31.582 miliwn) ar gyfer 2019/20.

Rhennir hyn fel a ganlyn.

	£000	£000
INCWM		
Cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru		31,582
GWARIANT		
Portffolio Celfyddydol Cymru		26,790
Costau gweithredu:		
Costau staffio	1,293	
Costau cynnal eraill	558	
Cyfalaf	55	1,906
Costau rhaglenni:		
Costau datblygu a staffio	1,054	
Ar gael i'w gwario ar raglenni strategol	1,832	2,886
CYFANSWM GWARIANT		31,582

Loteri

Mae'r gostyngiad yn yr incwm a geir oddi wrth y Loteri Genedlaethol wedi bod yn destun pryder sylweddol. Yn 2018/19 disgwyliasom gael £15.6 miliwn – gostyngiad sylweddol yn yr arian o gymharu â'r uchafbwynt yn 2014/15 sef £19.38 miliwn.

O gofio perfformiad gwerthiannau tocynnau Loteri yn ystod y flwyddyn, rydym yn rhagweld lefel debyg o arian yn y blynyddoedd i ddod.

	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23*
£000	15,600	15,650	15,800	15,800	13,167

* mae 2022/23 yn gyfnod o 10 mis o gofio bod trwydded y Loteri yn dod i ben ym mis Ionawr 2023.

Rydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y defnydd o'n harian oddi wrth y Loteri yn y dyfodol. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn cyhoeddi ein cyllideb lawn ar gyfer y Loteri.

Portffolio Celfyddydol Cymru

Mae'r arian heb newid o lefelau 2018/19 (gan gynnwys yr aelodau o'r Portffolio a ariennir drwy'r Loteri).

	2018/19	2019/20
Cymorth grant	£26,790,402	£26,790,402
Loteri	£1,750,000	£1,750,000
Cyfanswm	£28,540,402	£28,540,402

Mae ffigwr y Loteri yn cynnwys arian i ddau aelod o Portffolio Celfyddydol Cymru:

Ffilm Cymru Wales	£1,400,000
Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru	£350,000

Nodir ein hymrwymiadau o ran ariannu Portffolio Celfyddydol Cymru ar gyfer 2019/20 yn Atodiad 2.

Atodiad 2: Portffolio Celfyddydol Cymru 2019/20

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Sefydlwyd Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, yn 1972 ac mae'n rhan o gampws Prifysgol Aberystwyth ym Mhenglais. Mae Canolfan y Celfyddydau'n lleoliad rhanbarthol o bwys i'r ardal ac yn darparu amrywiaeth fawr o weithgareddau celfyddydol: perfformiadau drama a cherddoriaeth, ffilm, dawns, crefft, celfyddyd gyfoes, digwyddiadau llenyddol a gwyliau. Mae ganddi hefyd gyfleusterau ategol megis siopau a chaffis. Caiff gefnogaeth aruthrol gan y gymuned.

Mae Canolfan y Celfyddydau yn elusen gofrestredig. Ei phrif nod yw darparu profiad amrywiol, cyfareddol a chwbl hygyrch o'r celfyddydau i bob rhan o gymuned ddwyieithog a deuddiwyllynnol canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae Canolfan y Celfyddydau wedi cael dau grant sylweddol o arian Cyfalaf y Loteri am y cynlluniau sydd wedi ennill gwobrau; cwblhawyd y mwyaf diweddar yn 2009.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £536,645

Arad Goch

Sefydlwyd Cwmni Theatr Arad Goch yn 1989 ac mae'n gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Amcanion Cwmni Theatr Arad Goch yw hybu, cynnal a datblygu ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy hyrwyddo drama addysgiadol a gweithgareddau yn y celfyddydau gweledol yn arbennig drwy weithgarwch sy'n cynnwys y celfyddydau, drama, meim, gwaith byrfyfyr, opera, bwrlésg a chyhoeddiadau llenyddol.

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn darparu theatr i gynulleidfaoedd ifanc yn genedlaethol, a phrif ardaloedd gweithgarwch y cwmni yw Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae gan y cwmni gysylltiadau rhyngwladol cryf, ac mae'n trefnu'r Wyl Theatr Ryngwladol i Bobl Ifanc, Drysau Agored, a gynhelir bob dwy flynedd yn Aberystwyth. Mae'r cwmni'n darparu theatr gyfoes o ansawdd da drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (cynyrchiadau cefn wrth gefn) a gweithdai dwyieithog. Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn gweithio o swyddfeydd sydd wedi'u hadnewyddu yn Aberystwyth.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £346,887

Gwobr Artes Mundi

Mae Artes Mundi Prize Ltd yn elusen gofrestrdedig ac yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant. Fe'i sefydlwyd yn ffurfiol ym mis Mehefin 2001 fel menter ddwyflynyddol ar gyfer y celfyddydau gweledol cyfoes. Mae'n rhyngwladol ei chwmpas ac yn dathlu a chydabod artistiaid o bob rhan o'r byd. Dyfarnwyd y 'Wobr' am y tro cyntaf yn 2004, a chynhaliwyd arddangosfa yn Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd.

Nod ei bodolaeth yw datblygu a chynyddu cynulleidfaoedd i gelfyddyd weledol gyfoes drwy arddangosfa Artes Mundi, rhaglen comisiynu, cydweithrediadau arloesol a phresenoldeb amlwg yn y cyfryngau a'r cyfryngau newydd.

Apichatpong Weerasethakul enillodd Wobr Artes Mundi 8 yn 2018. Ar hyn o bryd ceisir enwebiadau ar gyfer Artes Mundi 9.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £147,962

Artis Community Cymuned

Mae Artis Community Cymuned yn sefydliad celfyddydau cymunedol proffesiynol ac yn elusen gofrestrdedig a sefydlwyd yn wreiddiol yn 1983. Mae'n darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau creadigol sy'n galluogi pobl i greu gweithiau celf sy'n ystyrlon i'w bywydau a'u cymunedau. Ar ôl 25 mlynedd yn Theatr Parc a Dâr, symudodd Artis Community Cymuned i swyddfeydd ym Mhontypridd yn 2009. Caiff y gwaith ei gyflawni fel gweithgarwch allestyn ar draws cymunedau cymoedd Rhondda Cynon Taf.

Mae gan y sefydliad dîm staff craidd o artistiaid sy'n ymarfer a gweithwyr cyllid / gweinyddu, ac mae'n cyflogi hyd at 30 o artistiaid allestyn ar eu liwt eu hunain. Mae ei waith yn cynnwys meysydd dawnys gymunedol (y mae 400 o bobl yn cymryd rhan ynnddi bob wythnos), dawnys mewn addysg/hyfforddiant, theatr ddawns, celfyddyd gyhoeddus/gweledol, celfyddyd ddigidol a phrosiectau celfyddydau cyfun. Ar hyn o bryd mae Artis yn arwain prosiect i adnewyddu adeilad y YMCA ym Mhontypridd.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £199,960

Arts Alive

Mae Arts Alive Wales yn sefydliad celfyddydol sydd â'i bencadlys yng Nghrucywel, de Powys, ac fe'i sefydlwyd fel elusen addysgol yn 1992. Ei genhadaeth yw cyfoethogi bywydau pobl yng nghymunedau gwledig ac ôl-ddiwydiannol canolbarth a de-ddwyrain Cymru drwy gyfranogiad ystyrlon o gelfyddydau a diwylliant cyfoes o ansawdd da sy'n mynnu sylw. Mae Arts Alive yn gweithio gydag artistiaid proffesiynol i ddarparu cyfleoedd a phrofiadau ar draws y rhanbarth mewn gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb, yn ysbrydoli ac yn gwella ansawdd bywyd. Mae'r sefydliad yn credu bod mynegiant creadigol yn sylfaenol i lesiant a bod cymryd rhan yn y celfyddydau yn gallu trawsnewid bywydau, yn enwedig i bobl sy'n agored i niwed.

Cafodd Arts Alive ei gynnwys ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru am y tro cyntaf yn 2016.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £77,625

ArtsCare GofalCelf

Mae ArtsCare GofalCelf (ACGC) yn sefydliad celfyddydol cymunedol sy'n darparu rhaglenni celfyddydau cyfranogol ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion ers mwy na 25 mlynedd. Ei nod yw hwyluso bywyd gwell drwy gymryd rhan mewn celfyddydau o ansawdd da.

Mae gan y sefydliad brofiad ac arbenigedd penodol mewn gweithio gyda phobl ddifreintiedig ac mae ganddo gofrestr unigryw o fwy na 140 o artistiaid proffesiynol ym mhob ffurf gelf. Ers 2009 mae GofalCelf hefyd wedi cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu gweithgarwch dawnys gymunedol yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.

Yn fras, ar hyn o bryd mae gweithgarwch GofalCelf mewn pedwar categori sy'n cydbblethu ac yn rhyngweithio, sef: y Celfyddydau mewn lechyd a Lles; y Celfyddydau yn y Gymuned; Celfyddydau Cyhoeddus, Digwyddiadau a Pherfformiad a Datblygiad Proffesiynol Artistiaid.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £132,915

Arts Connection / Cyswllt Celf

Dechreuodd Cyswllt Celf fel cydweithfa artistiaid yn gweithio yn Llanfyllin, gogledd Powys, a daeth yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant yn 1994. Mae Cyswllt Celf yn gweithio ar draws ystod o ffurfiau celf gan gynnwys y celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, drama, y cyfryngau newydd a ffilm. Mae'n cael ei ariannu fel sefydliad celfyddydol cymunedol sy'n gweithio i ystod eang o gymunedau ar draws ardal helaeth o ganolbarth a gogledd Cymru.

Ac yntau'n sefydliad celfyddydol cymunedol mae Cyswllt Celf yn darparu gweithgareddau i ysgolion, plant, pobl ifanc, pobl ag anableddau dysgu, unigolion a chymunedau'n gyffredinol. Mae partneriaethau gyda Gwasanaeth Ieuencid Powys, Cyngor Sir Powys, Cymunedau yn Gyntaf, byrddau iechyd lleol, Cerddorfa Siambr Canolbarth Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, Theatr Stiwt, Coleg Powys a gwahanol grwpiau cymunedol eraill ar lawr gwald yn dystiolaeth i'w gyfraniad at weithgarwch celfyddydol ym Mhowys, Wrecsam a'r gororau.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £65,204

Ballet Cymru

Sefydlwyd Ballet Cymru yn 1986 ac mae'n gwmni bale proffesiynol â'i bencadlys yng Nghasnewydd. Mae'n gwmni elusennol wedi'i gyfyngu drwy warant. Ei weledigaeth yw sefydlu bale siambr sy'n teithio'n genedlaethol ac sy'n nodedig o Gymru, sy'n hyrwyddo darlun cadarnhaol o Gymru, ac sy'n cyffroi cynulleidfaoedd a chyfranogwyr drwy greu gwaith sy'n arloesol, yn ysbrydoli ac yn hawdd ei ddeall.

Cafodd y cwmni ei gynnwys yn y Portffolio yn 2011. Dros ei hanes hir, mae wedi ymsefydlu fel cwmni sy'n ceisio ysbrydoli cariad at fale ymysg cynulleidfa mor eang ag sy'n bosibl. Mae'n chwilio o hyd am ffyrdd o wella'r ffordd mae'n gwneud hyn drwy gydweithrediadau, hyfforddiant a chreu gwaith o ansawdd da sy'n hawdd ei ddeall (gan gynnig i leoliadau ddewis o fale traddodiadol a/neu waith newydd sydd wedi'i wreiddio yn niwylliant a thraddodiadau Cymru).

Mae'r cwmni'n gweithio o'i safle ei hun yng Nghasnewydd, sydd wedi'i adnewyddu'n arbennig.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £252,376

Pontio (Prifysgol Bangor)

Wedi ei rannu dros chwe llawr, mae Pontio yn ganolfan celfyddydau ac arloesi newydd. Mae'r adeilad yng nghanol Bangor, a gynlluniwyd gan y penseiri Grimshaw, yn gartref i theatr hyblyg maint canolig wedi ei enwi ar ôl y bas-bariton byd-enwog Bryn Terfel, theatr stiwdio sy'n dal hyd at 120 o bobl, sinema ddigidol â 200 o seddi, Canolfan Arloesi o'r radd flaenaf ac ystod eang o gyfleusterau ar gyfer myfyrwyr, gan gynnwys cartref newydd i Undeb y Myfyrwyr a nifer o ofodau dysgu ac addysgu.

Mae Pontio yn cynnig pob math o adloniant saith diwrnod yr wythnos, o'r ffilmiau diweddaraf i gerddoriaeth a drama, gigs, syrcau gyfoes a theatr awyrol, sioeau cabaret a mwy. Agorwyd Pontio ym mis Chwefror 2016.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £280,118

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC (BBC NOW)

Hon yw'r unig gerddorfa symffoni broffesiynol amser llawn yng Nghymru. Mae'n un o chwe Grŵp Perfformio'r BBC a'i chartref yw Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Ei rhagflaenydd oedd y Gerddorfa Genedlaethol, a sefydlwyd yn 1928. Daeth yn Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn 1993.

83 o offerynwyr sydd ganddi o dan y contract, a deuir ag offerynwyr ychwanegol i mewn ar gyfer cyngherddau unigol yn ôl anghenion y repertoire. Ffurfiwyd y Corws yn 1983 ac erbyn hyn mae'n un o'r corau symffonig mwyaf blaenllaw yn y Deyrnas Unedig, gydag oddeutu 95 o gantorion ar gyfartaledd.

Yn ogystal â bod yn un o ensembles perfformio'r BBC – gan ddarparu rhaglen helaeth o gerddoriaeth i'w darlledu ar BBC Radio 3 – mae gan y Gerddorfa raglen lawn o waith cymunedol ac addysgol. Mae hefyd yn darparu cerddoriaeth ar gyfer traciau sain ffilmiau a rhaglenni teledu, gan gynnwys Dr Who.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £805,133

Sefydliad y Glowyr Coed Duon

Sefydliad y Glowyr Coed Duon yw'r unig leoliad proffesiynol ym mwrdeistref sirol Caerffili. Ei genhadaeth yw bod y theatr fwyaf blaenllaw yn y Cymoedd De-ddwyreiniol, gan gyflwyno celfyddydau ac adloniant proffesiynol a chymunedol o'r safon uchaf, a chreu profiadau diwylliannol sy'n cyfoethogi i amrywiaeth fawr o gynulleidfaoedd a chyfranogwyr.

Mae'r Sefydliad yn cyflwyno rhaglen o gelfyddydau ac adloniant proffesiynol, ac mae'n adnodd i sefydliadau cymunedol ac amatur greu a chyflwyno eu cynrychiadau hwythau. Mae hefyd yn darparu amrywiaeth fawr o gyfleoedd i bobl o bob rhan o'r gymuned gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol o'u dewis. Trefnir tua 200 o ddiwyddiadau byw a 300 o ddsbarthiadau bob blwyddyn, gydag oddeutu 34,000 o fynychiadau (perfformiadau a gweithdai) bob blwyddyn. Mae gan y Sefydliad brif ofod theatr â 400 o seddi mewn trefn hyblyg, gofod bar lle gellir hefyd cynnal perfformiadau byw gyda lle i hyd at 250 o bobl, a stiwdio dawnns sydd â lle i 30 o bobl.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £129,375

Canolfan Gerdd William Mathias

Mae Canolfan Gerdd William Mathias yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant ac yn elusen gofrestrdig. Sefydlwyd y Ganolfan yn 1995 a dechreuodd ar ei waith yn 1999. Ei chenhadaeth yw hyrwyddo a hybu'r gwaith o ddarparu gweithgarwch cerddorol yng Nghymru, yn arbennig drwy hyrwyddo'r celfyddydau gan gynnwys cerddoriaeth mewn perthynas â dawnns, drama, barddoniaeth, teledu a ffilm. Prif waith Canolfan Gerdd William Mathias yw darparu hyfforddiant lleisiol ac offerynnol rheolaidd i unigolion ar draws y gogledd.

Mae pencadlys Canolfan Gerdd William Mathias yng Nghaernarfon ac mae'n un o'r sefydliadau sy'n denantiaid angor yn y Galeri. Mae pencadlys y Ganolfan yno ers i'r Galeri agor ym mis Chwefror 2005. Daeth Canolfan Gerdd William Mathias yn aelod o Bortffolio Cyngor Celfyddydau Cymru am y tro cyntaf yn 2012 yn dilyn ein Hadolygiad Buddsoddi yn 2010.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £80,251

Canolfan Ucheldre Centre

Mae Canolfan Ucheldre yn elusen gofrestrdedig ac yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant a sefydlwyd yn 1991. Ei hamcanion yw hyrwyddo addysg trigolion Caerdybi a'i chyffiniau ym mhob agwedd ar y celfyddydau perfformio a gweledol a datblygu gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r celfyddydau hynny drwy ddarparu canolfan gelfyddydau a chyflwyno perfformiadau ac arddangosfeydd cyhoeddus. Hen eglwys wedi'i haddasu yw cartref Ucheldre ac mae ei phrif weithgareddau'n canolbwyntio ar y gofod perfformio canolog, galeri a siop.

Mae Canolfan Ucheldre yn cynnig rhaglen gytbwys ac amrywiol o weithgarwch celfyddydol sydd â'r nod o ddarparu profiad celfyddydol o ansawdd da i gymuned Caerdybi a'r cyffiniau.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £75,235

Cerdd Gymunedol Cymru

Mae Cerdd Gymunedol Cymru'n elusen gofrestrdedig ac yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant, a gorfforwyd yn 1990. Mae'n sefydliad sy'n gweithio'n genedlaethol. Ei brif nod yw cyfrannu at rymuso grwpiau ac unigolion difreintiedig drwy eu galluogi i gyfranogi o greadigrwydd a dysgu drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddori.

Mae Cerdd Gymunedol Cymru'n darparu amrywiaeth fawr o weithgarwch cerddorol, gan gynnwys gweithdai, hyfforddiant a mentora i gymunedau ar draws Cymru. Mae gan y sefydliad enw am ragoriaeth ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu gydag wyth aelod o'r staff ac oddeutu wyth deg o diwtoriaid a mentoriaid cerddoriaeth cymunedol. Mae ganddo swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chaernarfon ac mae'n darparu rhaglen waith gwbl ddwyieithog.

Canolbwynt y gwaith o gyflawni gweithgarwch ar lawr gwlad yw gweithdai cerddorol cyfranogol sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer cerddori creadigol i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ac sydd ag ychydig o fynediad at y celfyddydau neu ddim o gwbl. Mae mwyafrif y prosiectau'n targedu pobl sy'n ddifreintiedig neu'n dioddef o allgau cymdeithasol a'r nod yw gwella eu hunan-hyder, eu hysgogiad a'u hunan-dyb.

Yn aml mae gwaith Cerdd Gymunedol Cymru'n cael ei arwain gan gleientiaid ac yn cynnwys grwpiau ag anghenion penodol gan gynnwys pobl anabl, pobl ddigartref, pobl â phroblemau â chyffuriau neu alcohol a throseddwr ifanc.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £105,329

Chapter (Caerdydd) Cyf.

Mae Chapter (Caerdydd) Cyf yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant ac yn elusen gofrestrdig. Fe'i sefydlwyd yn 1971 ac mae ei ddatganiad cenhadaeth yn nodi ei fod wedi ymrwmo i ddatblygu diwylliant cyfoes, meithrin lleisiau annibynnol a darparu mynediad i'r celfyddydau i'r cyhoedd. Mae Chapter yn bodoli'n bennaf fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ac arddangos theatr, celfyddyd weledol a ffilm cyfoes.

Hen ysgol Edwardaidd yng Nghaerdydd yw cartref Chapter ac mae wedi meithrin hunaniaeth unigryw a phroffil rhyngwladol; ar yr un pryd mae'n gwasanaethu ei chynulleidfaoedd lleol gydag amrywiaeth fawr o berfformiadau, digwyddiadau a chyflwyniadau arloesol a chreadigol. Caiff y ganolfan oddeutu 800,000 o ymweliadau gan y cyhoedd bob blwyddyn.

Mae Chapter yn arbenigo mewn datblygu diwylliant cyfoes ac yn canolbwyntio ar feithrin talent newydd a darparu gofod ar gyfer ymagweddau arbrofol at y celfyddydau. Mae'r sefydliad wedi ennill enw rhyngwladol am ei waith drwy gefnogi artistiaid dylanwadol yn nyddiau cynnar eu gyrfaedd.

Drwy ei ymrwymiad i ddarparu mynediad i'r celfyddydau i'r cyhoedd, mae Chapter yn ganolfan weithgar a phrysur i amrywiaeth fawr o ddi-ddordebau, artistiaid a sefydliadau.

Mae Chapter yn darparu gofodau stiwdio, swyddfa a gweithdy parhaol i gwmnïau preswyl mewn amrywiaeth o ffurfiau celf – gan gynnwys theatr, dawn, carnifal, cerddoriaeth, celfyddyd weledol, ffotograffiaeth a chrefftau.

Mae mwy na 300 o sefydliadau'n defnyddio'r ganolfan, gan gynnwys 110 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol, 100 o gynhyrchwyr diwylliannol proffesiynol a mwy na 45 o ficro-fusnesau. Hwn yw'r clwstwr mwyaf o fusnesau diwylliannol yng Nghymru, ac mae gan Chapter enw da iawn fel 'deorfa' greadigol. Mae'r ganolfan yn gartref i 30 o gwmnïau creadigol preswyl yn Nhŷ'r Farchnad a'r prif adeilad.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £657,391

Cwmni'r Frân Wen

Gweledigaeth Cwmni'r Frân Wen yw creu theatr sy'n tanio'r dychymyg, y meddwl a'r galon ac sy'n dathlu rhyfeddod y byd. Nod y cwmni yw creu gwaith cyffrous a heriol sy'n ysbrydoli i blant a phobl ifanc. Mae pencadlys Cwmni'r Frân Wen, a sefydlwyd yn 1984, ym Mhorthaethwy, Ynys Môn. Mae'n cyflwyno gwaith yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, theatrau a chanolfannau cymunedol yn ogystal â mewn lleoliadau mwy anarferol megis traethau, siopau a chlybiau nos ar draws gogledd-orllewin Cymru a'r tu hwnt.

Caiff Cwmni'r Frân Wen ei ariannu'n bennaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ynys Môn. At hynny, mae Cwmni'r Frân Wen yn denu incwm o gronfeydd Ewropeaidd, incwm masnachol a nawdd oddi wrth y sector preifat.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £233,013

Dawns i Bawb

Cafodd Dawns i Bawb, sefydliad dawns gymunedol sydd â'i bencadlys yn y Galeri, ei sefydlu yn 1988 ac mae'n ymddiriedolaeth elusennol. Ei nod yw hybu maes dawns a gweithgareddau cysylltiedig. Mae'n gwneud hyn drwy roi gwaith artistiaid proffesiynol ar waith ym mhob agwedd ar fywyd y gymuned, drwy feithrin addysg dawns mewn ysgolion, clybiau a rhannau eraill o'r gymuned, a thrwy ddarparu plattfform ar gyfer perfformiadau gan grwpiau a chwmnïau proffesiynol ac amatur.

Mae rhaglen weithgarwch Dawns i Bawb yn ymestyn ar draws tair sir gogledd-orllewin Cymru. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r sefydliad wedi tyfu'n sylweddol. Mae'n cynnig dosbarthiadau cymunedol a gweithgareddau addysg o ansawdd da yn rheolaidd fel rhan o'r rhaglen artistig graidd, gan gynnwys darpariaeth i bobl ifanc, rhieni a phlant bach, pobl hŷn ac oedolion. Gan weithio'n llwyddiannus mewn partneriaethau er mwyn sicrhau'r adnoddau mwyaf posibl, mae'r cwmni'n darparu ar gyfer pob rhan o'r gymuned.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £85,266

Celfyddydau Anabledd Cymru

Mae Celfyddydau Anabledd Cymru'n elusen gofrestredig a sefydlwyd yn 1982. Amcanion Celfyddydau Anabledd Cymru yw hyrwyddo addysg yn y celfyddydau ymysg pobl anabl yng Nghymru drwy gynyddu cyfranogiad o gelfyddydau anabledd a gweithgareddau celfyddydol eraill yn gyfartal ag aelodau eraill o'r gymuned; a hybu a hyrwyddo addysg mewn celfyddydau anabledd er budd y cyhoedd ymysg unigolion a sefydliadau yng Nghymru.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £165,417

Ffotogallery

Ffotogallery yw'r asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer cyfryngau'r lens a ffotograffiaeth. Mae'n gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant a sefydlwyd yn 1978. Mae ei phencadlys yn Chapter, ac mae'n darparu rhaglen arddangosfeydd gydol y flwyddyn yn Nhŷ Turner ym Mhenarth, rhaglen addysg ac allestyn helaeth a chyhoeddiadau.

Cenhadaeth Ffotogallery yw datblygu ymarfer, mwynhad a dealltwriaeth o ffotograffiaeth gyfoes a chyfryngau'r lens cyfoes, yng Nghymru a'r tu hwnt. Ei nod yw cyfoethogi profiadau cynulleidfaoedd a chyfranogwyr drwy raglenni artistig ac addysgol sy'n nodedig, yn arloesol ac yn symbylol.

Yn 2015, rheolodd Ffotogallery brosiect Cymru yn Fenis yn llwyddiannus, gan gyflwyno'r artist Helen Sears fel artist nodwedd Cymru yn Biennale Fenis. Mae hefyd yn hyrwyddo Gŵyl ddwyflnyddol "Diffusion" mewn lleoliadau o gwmpas Caerdydd.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £199,472

Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru Wales yw'r corff cenedlaethol er datblygu ffilm yng Nghymru, ac mae'n ddirprwy loteri allanol i Gyngor Celfyddydau Cymru a'r British Film Institute (BFI). Ei dasg yw datblygu, gweithredu a rheoli strategaeth a rhaglenni ffilm er mwyn datblygu busnes a chelfyddyd ffilm i Gymru; ehangder a dyfnder mynediad i ffilmiau i gynulleidfaoedd yng Nghymru; a buddion addysg ffilm i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae gwaith Ffilm Cymru yn cynnwys creu, gweld a dysgu a'i brif fuddiolwyr yw'r cyhoedd yng Nghymru o bob oed, a gweithwyr proffesiynol newydd, sy'n dod i'r amlwg a sefydledig sy'n creu ffilmiau yng Nghymru, o'r dalent sy'n creu ffilmiau a'r criw a gwasanaethau sy'n eu hwyluso, i sinemâu, gwyliau a darparwyr addysg. Mae'r rhan fwyaf o'i waith yn ymdrin â busnesau, lle mae'n rhoi'r rhan fwyaf o'i gyllid i gefnogi datblygiad trydydd partiön a thyfu'r sector ffilm a chreadigol, yr arlwy i gynulleidfaoedd a chyfleoedd dysgu. Mae ei fuddiolwyr yn cynnwys awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr a chwmnïau yng Nghymru, gan ddatblygu eu sgiliau, eu gwaith a'u busnesau.

Mae ei waith yng Nghymru i ddatblygu cynulleidfaoedd yn canolbwyntio ar gynnig cyfleoedd i bawb yng Nghymru weld ystod eang o ffilmiau annibynnol o ansawdd da.

Mae gweithgareddau dysgu Ffilm Cymru'n canolbwyntio ar ei gwneud yn bosibl darparu addysg o ansawdd da ar ffilm a'r cyfryngau, y mae ymchwil annibynnol wedi dangos ei bod yn gwella sgiliau llythrennedd, cyfathrebu a digidol, yn ogystal â darparu offer ymgysylltu cymdeithasol ac ysgogi llwybrau at ddysgu pellach.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £1,400,000
(arian dirprwyedig y Loteri)

g39

Mae g39 yn sefydliad dynamig a arweinir gan artistiaid a sefydlwyd yn 1998 gan yr artistiaid Anthony Shapland a Chris Brown. Dros yr 16 mlynedd ddiwethaf, mae g39 wedi datblygu'n sefydliad sy'n adnodd yn rhannol, yn oriel yn rhannol ac yn gymunedol yn rhannol, gan ddangos gwaith bron 700 o artistiaid cyfoes.

Ers symud yn 2011, erbyn hyn g39 yw un o'r gofodau mwyaf sy'n arddangos celfyddyd weledol gyfoes yng Nghymru. Mae g39 wedi ymrwymo i hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r celfyddydau gweledol cyfoes, drwy'r rhaglen arddangosfeydd. Mae hefyd wedi ymrwymo i ddangos o leiaf 60% o artistiaid o dras Gymreig, a anwyd yng Nghymru neu sy'n gweithio yng Nghymru ar adeg yr arddangosfa.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £70,220

Galeri Caernarfon Cyf

Agorwyd Galeri yn 2004 ac mae'n ganolfan amlwrpas fywiog ac amldeffnydd sy'n darparu rhaglen gelfyddydol amrywiol o ansawdd da i gynulleidfa gynhwysol a chymysg. Mae Galeri yn gweithredu at ei gilydd fel lleoliad cyflwyno, ond mae hefyd yn comisiynu, cydgyhyrchu a chydgysylltu cynyrchiadau teithiol.

Mae rhaglen weithgarwch Galeri'n cynnwys opera a theatr gerdd, cyngherddau clasurol a cherddoriaeth fyd, datganiadau ac opera cymunedol. Mae Galeri wedi cael ei dynodi'n ganolfan ddawns ac mae'n gweithio i ddatblygu a thyfu ei chynulleidfa yn y maes hwn. Mae rhaglen Galeri'n cynnwys dawnys gymunedol, theatr gorfforol, syrcas a strafagansas ar raddfa fawr a dawnys gyfoes ryngwladol. Mae Galeri'n rhaglennu arddangosfeydd o'r celfyddydau gweledol a gweithgareddau eraill gan gynnwys barddoniaeth a llenyddiaeth, comedi, gweithdai a gweithgareddau cyfranogol.

Mae Galeri hefyd yn dangos ffilmiau a phrosiectau animeiddio arbenigol. Mae'n cynnal gwyl ffilmiau i blant a phobl ifanc. Mae hefyd yn gartref i nifer o fusnesau creadigol a sefydliadau diwylliannol gan gynnwys Cwmni Theatr Bara Caws a Chanolfan Gerdd William Mathias. Mae prosiect cyfalaf a gwblhawyd yn ddiweddar wedi ychwanegu gofod sinema newydd.

Mae Galeri yn fenter gymunedol ddielw.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £316,237

Oriel Gelf Glynn Vivian

Cafodd Oriol Gelf Glynn Vivian, oriel gelf dinas Abertawe, ei hadeiladu i fod yn gartref i gymynrodd wreiddiol Richard Glynn Vivian (1835-1910) ac fe'i hagorwyd yn 1911. Yn ddiweddarach cafodd yr adeilad rhestredig Gradd 2* ei helaethu gydag adain fodern yn 1974, lle ceir y prif ofod arddangos, storfeydd lluniau a stiwdios cadwraeth.

Mae cymynrodd Glynn Vivian a'r gweithiau hanesyddol a chyfoes ychwanegol a gaffaelwyd wedyn yn gwneud yr oriel yn unigryw ac yn nodedig yng Nghymru. Mae ei chasgliadau'n well, yn nhermau eu hansawdd a'u maint, na phob man arall ac eithrio Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Mae'r oriel wedi'i chofrestru gyda'r Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau fel amgueddfa gwbl achrededig ac mae ganddi statws diogelwch categori A, sy'n caniatáu iddi gael benthyg ac arddangos y gweithiau celf mwyaf gwerthfawr ac amlycaf o dan gynllun indemniad cenedlaethol a rhyngwladol y llywodraeth.

Yn 2018 cwblhawyd gwaith adnewyddu mawr ar Oriol Gelf Glynn Vivian a ariannwyd gan y Loteri.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £125,391

Hafren

Mae Hafren, sydd ar gampws Coleg Powys yn y Drenewydd, yn lleoliad cyflwyno graddfa ganolig, sy'n rhannu'r cyfleuster theatr gyda'r coleg. Yn wreiddiol Cyngor Sir Powys oedd yn gyfrifol am reoli'r theatr.

Erbyn hyn mae'r cyfrifoldeb wedi cael ei drosglwyddo i Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot o dan delerau Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae dalgylch Hafren yn cynnwys trefi llai a phentrefi Llanidloes, Rhaeadr Gwy, Llandrindod, rhan orllewinol yr Amwythig, Croesoswallt a Bishops Castle. Arwynebedd daearyddol o 500 o filltiroedd sgwâr yw hyn, yn fras.

Mae rhaglen Hafren yn cynnwys cymysgedd o ddrama – clasurol, gweithiau newydd a rhywfaint yn Gymraeg; dawn – bale a chyfoes; cerddoriaeth – clasurol, gwerin, byd, jazz a Chymraeg draddodiadol; opera; theatr i blant a darlithoedd. Mae'r lleoliad hefyd yn cynnig cerddoriaeth ac adloniant poblogaidd ehangach eu hapêl, gan gynnwys bandiau teyrnged, a digwyddiadau comedi.

Hefyd rhoddir slotiau rheolaidd i grwpiau cymunedol lleol megis Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Maldwyn, yr Urdd, Cwmni Theatr Gerdd y Drenewydd, Gŵyl Gerdd Maldwyn, Cerddorfa Ieuencid Gogledd Powys ac ysgolion cynradd ac uwchradd lleol. Er nad yw'n dŷ cynhyrchu, Hafren yw'r ganolfan gynhyrchu i Opera Canolbarth Cymru ac Ysgol Theatr Maldwyn.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £107,014

Celf ar y Blaen (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent)

Mae Celf ar y Blaen yn sefydliad celfyddydau cymunedol sy'n gweithio ar draws pedair sir rhan ddwyreiniol Blaenau'r Cymoedd. Fe'i sefydlwyd yn 2008 ac mae'n cael ei redeg gan gonsortiw m o bedwar awdurdod lleol - Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful a Thorfaen.

Mae'r sefydliad yn datblygu gweithgareddau celfyddydol cynaliadwy mewn gwahanol gymunedau drwy amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol cyfranogol. Caiff gweithwyr celfyddydau proffesiynol eu cyflogi mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau gan gynnwys y celfyddydau gweledol, dawn, cerddoriaeth a drama. Mae hyn yn caniatáu i'r cyfranogwyr ddysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau newydd neu ymchwilio i'w creadigrwydd drwy gyfranogiad.

Y meysydd mae'r sefydliad yn gweithio ynddynt yn bennaf yw adfywio a chreu swyddi, felly ei rôl yw dod o hyd i ffyrdd o gynnwys pobl yn y celfyddydau er mwyn codi dyheadau a chynyddu cyfleoedd i'r cyfranogwyr.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £150,470

Theatr Hijinx

Cafodd Theatr Hijinx ei sefydlu yn 1981 a'i gorffori'n gwmni elusennol wedi'i gyfyngu drwy warant yn 1987. Ei nod yw creu theatr gynhwysol o ansawdd da sy'n arloesol, yn grymuso ac yn ysgogi'r meddwl. Mae Hijinx yn gwmni preswyl yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ac mae ei wreiddiau fel cwmni arloesol sy'n hybu cynnwys pobl ag anableddau dysgu ac yn creu amrywiaeth o gyfleoedd i gyfranogi.

Mae Hijinx yn gwmni theatr cwbl broffesiynol ac yn mynd â theatr ar raddfa fach ar daith ledled y Deyrnas Unedig ac Ewrop ac yn rhyngwladol. Mae sioeau Hijinx bob amser yn cynnwys actorion sydd ag anableddau dysgu. Mae hyfforddi actorion sydd ag anableddau dysgu i berfformio ar lefel broffesiynol hefyd yn ganolog i genhadaeth Hijinx. Mae'r cwmni wedi sefydlu Academiâu Hijinx, yr unig hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru i actorion sydd ag anableddau dysgu.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £155,687

Jukebox Collective

Mae Jukebox Collective yn gwmni creadigol sy'n canolbwyntio ar ddarparu addysg, perfformiadau a gwaith ymgynghorol o ansawdd da ym maes dawns stryd. Ei sylfaen yw'r egwyddor bod rhagoriaeth mewn dawns stryd yn hawl sydd gan bawb, a'i genhadaeth yw ysbrydoli, creu ac addysgu drwy ddawns stryd a diwylliant hip hop, gyda diddordeb arbennig mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i bobl ifanc.

Mae Jukebox yn dathlu amrywiaeth a chreadigrwydd, ond ar yr un pryd yn cadw llygad barcud ar fusnes, gyda dogn helaeth o oportiwnistiaeth.

Mae Cyfarwyddwr Artistig Jukebox wedi cael gyrfa o 20 mlynedd ym maes dawns. Mae wedi cael llwyddiant nodedig wrth greu a hyfforddi criw dawns dan 16 oed o Gaerdydd – Jukebox Juniors. Daeth y Juniors yn bur enwog ar y teledu, gan deithio'r byd a dychwelyd i'r Jukebox Studios yng Nghaerdydd i drosglwyddo eu sgiliau.

Mae Jukebox Studios yn rhedeg ers rhyw 9 mlynedd ac yn addysgu sylfeini ffurfiau dawns stryd i bobl o bob oed. Yn aml mae'n denu pobl ifanc anos eu cyrraedd y credir eu bod yn wynebu rhwystrau cymdeithasol ac economaidd i fynediad i'r celfyddydau ac addysg.

Mae'r rhaglenni gwaith yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd wedi cynnwys gwaith allestyn i ysgolion megis Ysgolion Uwchradd Willows a Fitzalan, digwyddiadau megis Carnifal Trelái a rhaglenni addysg ddawns ar safleoedd teithwyr Gwyddelig lleol. Mae Jukebox hefyd yn darparu rhaglen o ddsbarthiadau yn Ymddiriedolaeth Ddatblygu 3Gs Merthyr Tudful.

Daeth Jukebox i Bortffolio Cyngor y Celfyddydau am y tro cyntaf yn 2016.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £167,670

Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r Cwmni Cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2011 pan gafodd Academi, yr Asiantaeth Hyrwyddo Llenyddiaeth Genedlaethol a gweinyddwr yr Academi Gymreig (cymdeithas genedlaethol llenorion Cymru), ei ail-lansio i gynnwys Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.

Mae prosiectau a gweithgareddau cyfredol niferus Llenyddiaeth Cymru, sydd â'i bencadlys yng Nghaerdydd, yn cynnwys Gwobr Llyfr y Flwyddyn, Bardd Cenedlaethol Cymru, Bardd Plant Cymru a'r Young People's Laureate for Wales, mentrau twristiaeth lenyddol, cynllun nawdd Awduron ar Daith, cyrsiau ysgrifennu yn Nhŷ Newydd, Tŷ Cyfieithu Cymru, Gwasanaethau i Awduron (gan gynnwys bwrsariau), Gŵyl Lenyddiaeth Dinefwr, Cystadleuaeth Barddoniaeth Ryngwladol Caerdydd, Gwobr John Tripp am Farddoniaeth Lafar a Chystadleuaeth Stori Fer Rhys Davies a Sgwadiâu `Sgwennu'r Ifainc.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £838,264
(gan gynnwys £96,000 o arian dirprwyedig y Loteri)

Live Music Now! Wales

Sefydlwyd Live Music Now (LMN) gan Yehudi Menuhin yn 1977 gyda dau nod trosfwaol: sicrhau bod cerddoriaeth fyw o ansawdd da ar gael mor helaeth ag sy'n bosibl; a chefnogi cerddorion proffesiynol ar ddechrau eu gyrfaedd.

Mae cerddorion LMN yn perfformio mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau. Fodd bynnag, un nodwedd benodol o'i weithgarwch yw mynd â pherfformiadau byw i leoliadau annhraddodiadol lle na fyddai cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yn cael cyfle i gael profiad o'r fath weithgarwch fel arfer.

Mae'r sefydliad yn gweithio ledled y Deyrnas Unedig ac mae ganddo gangen benodol i Gymru ers 1990. O'i bencadlys yng Nghaerdydd, mae LMN yn cyflawni ei weithgareddau drwy weithio gyda phartneriaid ymroddedig ledled Cymru gyfan.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £45,140

Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange

Cafodd Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange ei sefydlu yn 1966 a daeth yn elusen gorfforedig yn 1991. Ei gartref yw tŷ Fictoraidd wedi'i addasu ar ddarn o barcdir ger canolfan siopa Cwmbrân, ac mae'n meithrin enw fel y ganolfan ranbarthol ar gyfer y celfyddydau cymhwysol yn y de-ddwyrain.

Mae'n cynnal arddangosfeydd gan artistiaid a gwneuthurwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn mynd â'r arddangosfeydd ar daith, ac yn darparu cyfleoedd i ddangos gwaith gan ymarferwyr o Gymru a'r tu hwnt sy'n newydd ac sy'n dod i'r amlwg. Mae hefyd yn darparu rhaglen addysg a chyfranogiad i bobl o bob oed.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £85,266

Opera Canolbarth Cymru

Sefydlwyd Opera Canolbarth Cymru yn 1988. Mae'n ymddiriedolaeth elusennol ac yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant ac wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Nodau'r sefydliad yw addysgu'r cyhoedd am y celfyddydau operatig a hybu datblygiad gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r celfyddydau hynny, a'i chwaeth ynddynt. Mae pencadlys y sefydliad yn y Drenewydd, Powys.

Mae'r cwmni'n darparu perfformiadau opera wedi'u llwyfannu'n llawn sy'n hawdd eu cyrraedd i gynulleidfaoedd newydd a/neu wahanol i'r cynulleidfaoedd a all gyrraedd perfformiadau o waith gan y cwmnïau mawr. Mae'n gwneud hyn drwy fynd â'r repertoire opera prif-ffrwd i leoliadau na fyddent fel arall, at ei gilydd, yn gallu cynnig y profiad hwn.

Mae'r cwmni'n rhoi cyfleoedd cyflogaeth i gerddorion proffesiynol ac yn arbennig mae'n cynnig cyfleoedd i unawdwyr addawol gael profiad o rolau mawr ac i ddatblygu hyn dros nifer o berfformiadau.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £104,326

Oriel Mission

Cafodd adeilad Oriel Mission, sef Eglwys Sant Nicholas gynt, ei adeiladu yn 1868 fel addoldy anenwadol i forwyr oedd yn ymweld â phorthladd Abertawe. Yn 1977 fe'i trowyd yn Weithdy Celfyddydau Abertawe, menter artistiaid a gâi ei rheoli a'i rhedeg gan artistiaid a gwirfoddolwyr.

Ers 1998 fe'i hadwaenir fel Oriel Mission. Saif mewn ardal adfywio ddynodedig ac mae'n rhan o gasgliad o leoliadau diwylliannol yn Ardal Forol Abertawe.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £95,298

MOSTYN

Cafodd MOSTYN yn Llandudno ei sefydlu yn 1901 gan yr Arglwyddes Augusta Mostyn. Fe'i hadeiladwyd yn arbennig i ddangos gwaith artistiaid benyw ac fe'i hystyrir yn un o'r orielau pwrpasol hynaf yng Nghymru. Fodd bynnag, fe'i caewyd ar ddechrau'r rhyfel yn 1914 ac arhosodd ar gau am y 65 mlynedd nesaf. Yn dilyn ymgyrch a arweiniwyd gan Kyffin Williams ac eraill, cafodd MOSTYN ei hail-sefydlu yn 1978, ac agorodd i'r cyhoedd y flwyddyn ganlynol fel oriel gelf gyfoes. Mae'n gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant ac yn elusen gofrestrdig.

Ar ôl i MOSTYN gaffael adeilad cyfagos yn 2004, dyfarnwyd iddi £3 miliwn o arian Cyfalaf y Loteri oddi wrth Cyngor y Celfyddydau tuag at y gwaith gwerth £5.1 miliwn i ehangu ac adnewyddu'r adeilad. Cafodd y prosiect ei arwain gan Ellis Williams Architects ac yn yr adeilad newydd ceir pum gofod arddangos, ystafell addysg gweld a chyffwrdd, ystafell gyfarfod, caffi, man gwerthu mwy o faint, a gwell cyfleusterau i'r cyhoedd a fydd yn gwneud yr oriel yn gwbl hygyrch i bawb. Ail-agorodd MOSTYN ym mis Mai 2010.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £389,215

Music Theatre Wales

Sefydlwyd Music Theatre Wales (MTW) yn 1988. Mae'n gwmni elusennol wedi'i gyfyngu drwy warant a gorfforwyd ym mis Gorffennaf 1994. Ers hynny mae'r cwmni wedi creu 30 o gynyrchiadau ac wedi cyflwyno 16 o berfformiadau cyntaf yn y byd.

Yn 2002 ef oedd Cwmni Cyswllt cyntaf y Royal Opera House i ddatblygu rhaglen o operâu newydd yn y Linbury Studio Theatre.

Ac yntau'n gwmni opera cyfoes mwyaf blaenllaw Cymru, mae MTW wedi ymrwymo i berfformio campweithiau'r gorffennol diweddar – a mynd â nhw ar daith – ac i gomisiynu gweithiau newydd gan y cyfansoddwyr ac awduron gorau oll – operâu y gobeithiwn y byddant yn cael eu cynnwys yn repertoire cwmnïau opera ledled y byd yn y dyfodol. Mae cymorth hael gan roddwr dyngarol wedi ei gwneud yn bosibl i MTW feithrin partneriaethau newydd, gan gynnwys rhai) gyda Theatr Genedlaethol Cymru, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a'r London Sinfonietta.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £218,934

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru'n ymddiriedolaeth elusennol ac yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant a sefydlwyd ym mis Awst 1984. Mae ei bencadlys yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ac mae'n gwmni dawns sefydlog graddfa ganolig sy'n gweithio gyda choreograffwyr rhyngwladol sefydledig.

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn cynhyrchu perfformiadau dawns ac yn mynd â nhw ar daith ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae hefyd yn cyflawni gweithgareddau datblygu fel ei raglen Dance Explorer ac amrywiaeth o berfformiadau, gweithdai a chydgyngyrchiadau yn y Tŷ Dawns.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £834,186

National Theatre Wales

Crëwyd National Theatre Wales (NTW) yn 2008 gyda'r nod cyffredinol o ddatblygu a chyfoethogi theatr Saesneg yng Nghymru. Sefydlwyd y cwmni, a grëwyd fel sefydliad hyblyg nad yw'n gaeth i adeiladau, gyda'r nod o gynnig dewisiadau radical a dychmygus, o ran y dramâu a ddewisir ac o ran arddulliau cynhyrchu.

O'r dechrau mae wedi ceisio ailddiffinio beth yw theatr, a beth all fod. Mae ysbryd cydweithio a chydweithredu wedi bod yn sail i lawer o'i waith wrth iddo ganolbwyntio ar gomisiynu gwaith newydd, broceru perthnasoedd rhwng dramodwyr, cyfarwyddwyr, cwmnïau a theatrau, gan ganfod a meithrin talent.

Mae pencadlys NTW yng Nghaerdydd ac mae'n gweithio'n helaeth ledled Cymru.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £1,606,405

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuentid Cymru

Mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuentid Cymru'n darparu hyfforddiant a chyfleoedd i berfformio ar draws disgyblaethau dawn, cerddoriaeth a theatr – drwy Fand Pres, Corau, Dawns, Jazz, Cerddorfa, Theatr a Cherddorfa Chwyth Cenedlaethol Ieuentid Cymru – gan arwain at berfformiadau ar y lefel uchaf yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Er bod ganddo swyddfa yng Nghaerdydd, mae aelodau Celfyddydau Cenedlaethol Ieuentid Cymru yn dod o bob rhan o Gymru. Mae'n ceisio bod â phresenoldeb bob blwyddyn yn y gogledd, y canolbarth, y de a'r gorllewin drwy weithgareddau cyfranogol a thrwy gyngherddau/perfformiadau cyhoeddus.

Mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuentid Cymru'n meithrin partneriaethau creadigol sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £350,000
(Arian Loteri Portffolio Celfyddydol Cymru)

New Dance

Cafodd cwmni NEW Dance (Dawns Gogledd Ddwyrain Cymru gynt), sydd â'i bencadlys ym Mhafiliwn Llangollen, ei sefydlu yn gyntaf yn 1998. Ei weledigaeth yw bod yn esiampl o ragoriaeth i'r gymuned dawns gynyddol yng ngogledd-ddwyrain Cymru a'r tu hwnt, gan arloesi gyda gwaith newydd mewn dawns mewn lleoliadau addysgol a chymunedol, a gosod y safon ar ei gyfer.

Nod NEW Dance yw torri tir newydd gyda gwaith dawns creadigol ac arloesol sy'n gwella llesiant cymdeithasol a diwylliannol cymunedau ar draws gogledd-ddwyrain Cymru. Mae hefyd wedi ymrwymo i gryfhau'r seilwaith dawns proffesiynol yn y rhanbarth.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £75,523

NoFit State Circus

Mae NoFit State Circus, a sefydlwyd yn 1986, yn gwmni theatr syrcas cyfoes. Mae ei bencadlys yng Nghaerdydd ac mae'n cyflwyno cynyrchiadau teithiol proffesiynol ar raddfa ganolig a mawr; rhaglen celfyddydau cymunedol helaeth (gan gynnwys gweithdai cymunedol a phreswyladau); cynyrchiadau cymunedol cyfryngau cymysg ar raddfa ganolig a mawr; a rhaglen datblygiad proffesiynol. Fel arfer mae NoFit State yn llwyfannu oddeutu 20 perfformiad yng Nghymru a rhwng 80 a 100 o berfformiadau mewn gwledydd eraill. Mae'r cwmni hefyd yn cael cyllid refeniw gan Arts Council England.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £194,608

Oriel Davies

Oriel 31 oedd ei henw gwreiddiol, ac fe'i sefydlwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen gofrestredig yn 1982. Oriel Davies yn y Drenewydd yw'r prif leoliad ar gyfer y celfyddydau gweledol cyfoes i'r canolbarth. Ceir ynddi ddwy brif oriel arddangos a gofod prosiectau bach, oriel fewnol fach o'r enw TestBed, caffi, siop a chyfleusterau addysg pwrpasol.

Gweledigaeth ddatganedig Oriel Davies yw ysbrydoli, cyffroi, ennyn diddordeb, herio ac addysgu drwy gelfyddyd weledol gyfoes arloesol. Mae'r oriel yn cyflwyno rhaglen flynyddol o 5 i 7 arddangosfa fawr sy'n dangos y gelfyddyd gyfoes orau sy'n cael ei chynhyrchu yng Nghymru. Mae pwyslais eglur ar ddarparu sioeau mawr un artist, cyfleoedd i gomisiynu gwaith gan artistiaid o Gymru sy'n ifanc ac sy'n dod i'r amlwg, a dod â pheth o'r gwaith pwysicaf a mwyaf diddorol gan artistiaid rhyngwladol i Gymru.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £223,798

Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin

Mae Oriel Myrddin yn elusen gofrestredig ac ymddiriedolaeth a reolir gan Gyngor Sir Gâr; mae'n cael cymorth ariannol a gweinyddol oddi wrth y Cyngor. Mae cartref Oriel Myrddin mewn adeilad Fictoraidd o frics coch yng nghanol Caerfyrddin, ac fe'i lanswyd yn 1991.

Mae'r oriel yn arddangos celfyddydau gweledol cyfoes, crefftau, celfyddyd gymhwysol a gwaith dylunio. Mae ei rhaglenni'n cynnwys artistiaid a gwneuthurwyr o Gymru, y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill, sydd wedyn yn cysylltu â'r Rhaglen Addysgol a Chymunedol. Mae'r oriel hefyd yn rhedeg man arbenigol sy'n gwerthu crefftau cyfoes gan artistiaid a gwneuthurwyr o Gymru a'r tu hwnt.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £47,147

Canolfan Celfyddydau Pontardawe

Yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe ceir theatr/sinema Fictoraidd â 450 o seddi, oriel atig, stiwdio addysgu ac ystafell gyfarfod /bar. Ers ei hagor yn 1996 mae'r Ganolfan wedi dilyn cylch gwaith eang i ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu â'r celfyddydau er mwyn gwella amrywiaeth ac ansawdd cyfleoedd diwylliannol ym mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Yn sgil cyd-raglennu gyda'r ddau leoliad arall yn ardal yr Awdurdod Lleol (Neuadd Gwyn a Theatr y Dywysoges Frenhinol) mae Canolfan y Celfyddydau wedi datblygu rhaglen nodedig. Nod hon yw cyflwyno 60/70 o sioeau proffesiynol bob blwyddyn yn cynnwys drama, dawns, comedi, cerddoriaeth fyd, gwerin a chlasurol, theatr i blant, rhaglen o 60 o ffilmiau arbenigol a phrif-ffrwd, sioeau amatur, arddangosfeydd celfyddydau gweledol, dosbarthiadau a gweithdai ar draws ffurfiau celf a rhaglen allestyn ledled y fwrdeistref sirol.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £63,197

Dawns Powys

Mae Dawns Powys, a sefydlwyd yn gyntaf yn 1979 fel gwasanaeth dawns mewn addysg i'r sir, yn gwmni dawns proffesiynol sy'n hybu gweithgarwch dawns cyfranogol ledled y sir. Mae ei bencadlys yn y Ganolfan Dawns yn Llandrindod, ac mae'n gweithio gyda chroestoriad eang o'r boblogaeth o bob oed a gallu mewn lleoliadau addysgol a chymunedol.

Ei gylch gwaith craidd yw darparu gweithgarwch dawns mewn addysg i ysgolion ym Mhowys, ond dros y blynyddoedd mae ei bortffolio wedi datblygu i gynnwys prosiectau cyfranogol yn y gymuned, dawns gyda phobl ag anabledau dysgu, hybu a darparu dawns drwy gyfrwng y Gymraeg, creu cynrychiadau teithiol i gynulleidfaoedd, a hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i ymarferwyr a thiwtoriaid dawns.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £112,602

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mae Theatrau Rhondda Cynon Taf yn cynnwys Theatr Parc a Dâr, Treorci; a'r Colisëwm, Aberdâr. Mae'r ddau leoliad hyn yn cael eu rhedeg gan dîm Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae rhaglen Theatrau Rhondda Cynon Taf yn eang ei chwmpas ac yn cynnwys cerddoriaeth, drama, opera, comedi a dawns.

Mae cynulleidfa gref ar gyfer cerddoriaeth werin/"roots" wedi cael ei meithrin ac mae'r lleoliadau hefyd yn rhaglennu amrywiaeth o berfformwyr cerddoriaeth Gymreig/Geltaidd. Mae Theatrau Rhondda Cynon Taf hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o gwmnïau a lleoliadau eraill ar gydgyrchadau. Mae rhaglen Take pART yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyfranogol i ydategu'r rhaglennu byw ac yn cynnal amrywiaeth o weithdai mewn dawns, drama, ffilm, cerddoriaeth a gweithgarwch aml ffurf gelf yn y lleoliadau hyn

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £150,821

Rubicon Dance

Rubicon yw'r sefydliad datblygu dawns gymunedol i Gaerdydd a Chasnewydd. Dechreuodd yn 1976 fel Prosiect Dawns Gymunedol Caerdydd â'i bencadlys yn Theatr Sherman ac erbyn 1983 roedd y sefydliad yn gweithio o'i ganolfan ddawns ei hun yn Adamsdown, Caerdydd. Mae Rubicon yn elusen gofrestredig ac yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant.

Mae rhaglen datblygu dawns gymunedol Rubicon ymysg y rhai mwyaf cynhwysfawr yn y Deyrnas Unedig ac mae'n ymgysylltu â'r gymuned ar bob lefel.

Mae'r sefydliad yn rhedeg rhaglen sylweddol yn ei adeilad yn ogystal â'i raglenni datblygu helaeth mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol ar draws Caerdydd a Chasnewydd. Mae hefyd yn cyflawni rôl bwysig fel hyfforddwr athrawon (drwy ei waith mentora athrawon drwy raglen PESS a'i gynllun prentisiaeth) a hyfforddwr dawnsywyr ifanc talentog uchelgeisiol.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £194,608

Canolfan Grefft Rhuthun

Mae Canolfan Grefft Rhuthun yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ddinbych. Canolfan Grefft Rhuthun yw'r ganolfan genedlaethol ar gyfer y celfyddydau cymhwysol yng Nghymru, gyda thair oriel, tair stiwdio artistiaid, oriel werthu, gweithdai addysg a phreswyladau, porth gwybodaeth i dwristiaid a chaffi gyda theras ar gwr.

Mae'r rhaglen flynyddol feiddgar ac arloesol o arddangosfeydd yn cael ei chyflwyno yn fras mewn patrwm o 5 'slot' o hyd at 3 sioe - pob un â Rhaglen Addysg Allestyn gyfatebol.

Nod y rhaglen yw herio dirnadaeth y cyhoedd o grefft ac ymchwilio i ansawdd crefftwaith cyfoes ar adeg pan fo ffiniau'n cael eu gwthio. Mae niferoedd y gynulleidfa yn y Ganolfan wedi aros yn sefydlog gydag oddeutu 98,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £389,215

Theatr Sherman

Cafodd Theatr Sherman ei gorffori fel cwmni cyfyngedig ag amcanion elusennol ym mis Tachwedd 2006.

Mae Theatr Sherman yn gweithredu fel cwmni cynhyrchu gan weithio yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda chylch gwaith penodol i ddatblygu a chyflwyno gwaith newydd. Mae hefyd yn rhedeg adeilad Theatr Sherman – lleoliad blaenllaw i'r celfyddydau perfformio yng Nghaerdydd a Chymru. Ar y cyd â'r ddwy rôl hyn, mae'r cwmni'n rhedeg rhaglen sylweddol o waith allestyn a chyfranogi.

Mae gan adeilad Sherman ddau awditoriwm – y prif dŷ/Lleoliad 1 â seddi i 460 o bobl a'r stiwdio/Lleoliad 2 sydd â thrwydded ar gyfer 200 ond sydd fel arfer â seddi i 125 o bobl. Yn 2018 enillodd Theatr Sherman un o wobrau amlwg Olivier.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £1,125,997

Sinfonia Cymru

Mae Sinfonia Cymru, a sefydlwyd yn 1996, yn gwmni elusennol wedi'i gyfyngu drwy warant. Mae'n cefnogi ensemble o gerddorion ifanc talentog ac wedi ymrwmo i deithio i rannau o'r Gymru wledig na fyddent fel arfer yn cael perfformiadau cerddorfaol byw.

Mae Sinfonia Cymru'n meithrin ac yn cryfhau ei bartneriaethau â llawer o sefydliadau celfyddydol blaenllaw eraill ledled Cymru. Un o'r partneriaethau pwysicaf yw honno gyda Choleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru, lle mae Sinfonia Cymru'n cefnogi datblygiad myfyrwyr cerddorfaol, gan gynnig bwrsariau cysylltiedig a chyfleoedd perfformio proffesiynol cynnar.

Mae cylch gwaith teithio craidd y gerddorfa'n cynnwys pedwar cyngerdd dilynol gyda gweithgarwch cysylltiedig. Ynghyd â'r lleoliadau craidd yng Nghaerdydd (Neuadd Dora Stoutzker, Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru), Casnewydd (Glan yr Afon) a Phontyberem (y Neuadd Goffa, Sir Gaerfyrddin), mae'r gerddorfa hefyd wedi teithio'n helaeth ar draws Cymru gan ymweld â Gwynedd, Powys, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Ceredigion a Sir Benfro.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £217,825

Canolfan y Celfyddydau Taliesin

Saif Canolfan y Celfyddydau Taliesin, a sefydlwyd yn 1984, ar gampws Prifysgol Abertawe (ac mae'n gweithredu fel un o'i hadrannau). Mae gan y ganolfan enw artistig da ac mae'n cyflwyno rhaglen gymysg ac amrywiol sy'n hybu dawn, jazz a cherddoriaeth fyd ochr yn ochr â sinema celfyddyd a byd. Fe'i cydnabyddir yn ganolfan ragoriaeth ranbarthol a Chanolfan Ddawns.

Yn ogystal â bod yn dŷ cyflwyno ar gyfer y celfyddydau perfformio, erbyn hyn mae Taliesin yn cydgynhyrchu gwaith ac wedi meithrin perthnasoedd a phartneriaethau cryf gyda chwmnïau cynhyrchu megis Volcano a National Theatre Wales. Fel rhan o ddathliadau Dylan Thomas 100, comisiynodd Taliesin John Metcalf i gyfansoddi 'Under Milk Wood – The Opera'. Ac yn 2018, cydgynhyrchodd Taliesin "Now the Hero" gan Marc Rees fel rhan o ddigwyddiadau coffa 14-18 NOW.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £219,906

Glan yr Afon

Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, a agorwyd ym mis Hydref 2004, yw'r unig theatr gyflwyno broffesiynol yng Nghasnewydd. Mae ganddi awditoriwm â 494 o seddi, theatr stiwdio â 128 o seddi, oriel, stiwdio dawn, stiwdio recordio, tair ystafell weithdy, ystafell gynadledda a chaffi.

Cafodd yr adeilad, sy'n eiddo i Gyngor Dinas Casnewydd ac yn cael ei reoli ganddo, ei ariannu gan yr awdurdod lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru, gyda chyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Theatr gyflwyno yw Glan yr Afon yn bennaf, ond mae hefyd yn anelu at gydgyhyrchu o leiaf dau gynhyrchiad drama, theatr gorfforol a dawn bob blwyddyn.

Mae nifer o gwmnïau o Gymru wedi manteisio ar gymorth parhaus, gofodau ymarfer ac adnoddau'r lleoliad. Maent yn cynnwys Citrus Arts, Ballet Cymru, NoFit State Circus a Sinfonia Cymru.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £125,391

Theatr Bara Caws

Cafodd Theatr Bara Caws ei sefydlu mwy na deng mlynedd ar hugain yn ôl i ateb y galw am theatr broffesiynol yn y gymuned Gymraeg, i'r gymuned Gymraeg. Erbyn hyn hwn yw'r cwmni theatr gymunedol proffesiynol hynaf sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cartref y cwmni yw uned ar Ystad Ddiwydiannol Cibyn. Yn yr uned mae ystafell ymarfer, gweithdy a swyddfa. Ar gyfartaledd mae'r cwmni'n mynd â chynhyrchiad ar daith am o leiaf pedair wythnos, gan berfformio rhyw 25 o weithiau mewn oddeutu 20 lleoliad gwahanol.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £279,803

Theatr Brycheiniog

Agorodd Theatr Brycheiniog yn 1997. Mae'n theatr bwrpasol gydag awditoriwm â lle i hyd at 477 o bobl sy'n eistedd neu 600 o bobl sy'n sefyll, gofod stiwdio â lle i 120 o bobl, oriel, bar a chaffi.

Mae'r sefydliad yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant ac yn elusen gofrestrdig sy'n bodoli i hybu gwybodaeth am y celfyddydau a mwynhad a dealltwriaeth ohonynt drwy hyrwyddo digwyddiadau theatraidd a gweithgareddau celfyddydol eraill.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £194,608

Theatr Clwyd

Sefydlwyd Clwyd Theatr Cymru yn 1976 o dan Gyngor Sir Clwyd. Ar ôl newidiadau i awdurdodau lleol unedol, Cyngor Sir y Fflint oedd ei chorff llywodraethu. Mae'n cael arian refeniw o bwys gan Gyngor y Celfyddydau ac mae'n enwog am ansawdd ei rhaglen theatr a drama.

Ar gyfartaledd mae'r cwmni'n llwyfannu wyth cynhyrchiad mewnol bob blwyddyn, ac mae rhai o'r rhain yn mynd ar daith, gan fwyaf y tu mewn i Gymru. Yn ategu'r cynhyrchiadau mewnol mae rhaglen ymweld eang ei chwmpas o ddrama, dawn, cerddoriaeth glasurol, comedi a sioeau i'r teulu, sy'n chwarae ar ddwy lwyfan fyw. Mae Clwyd Theatr Cymru yn rhedeg sinema stiwdio, tair oriel, bwyty a barrau a nifer o ystafelloedd achlysur. Mae hefyd yn cynnwys gweithgarwch Theatr i Bobl Ifanc sy'n arloesol ac yn uchel ei barch, fel rhan o'r cwmni.

Mae'r adran addysg yn darparu rhaglen o weithdai wythnosol ac yn ystod y gwyliau, rhaglen cynhwysiant cymdeithasol a Theatr i Bobl Ifanc sy'n cael ei hariannu ar wahân.

Yn 2019, enillodd Theatr Clwyd un o wobrau theatr amlwg Olivier.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £1,802,969

Theatr Felinfach

Sefydlwyd Theatr Felinfach yn 1972 gan Adran Addysg Cyngor Sir Aberteifi. Roedd creu'r theatr yn adlewyrchu uchelgais diwylliannol y gymuned wledig hon yng ngorllewin Cymru ac felly mae ganddi ymgysylltiad cryf â'r gymuned leol. Mae'r theatr yn gweithredu ym meysydd addysg a datblygu cymunedol drwy'r celfyddydau perfformio a'r cyfryngau torfol ledled y Gymru wledig (gyda pherthnasedd penodol i'r ardaloedd lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith ddiwylliannol). Felly mae rhaglennu digwyddiadau celfyddydol yn un agwedd yn unig ar rôl datblygu sy'n cynnwys gwarchod a datblygu'r gymuned greadigol a harneisio'r creadigrwydd cudd sy'n rhan hanfodol o gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £60,188

Theatr Genedlaethol Cymru

Cafodd Theatr Genedlaethol Cymru ei sefydlu a'i gorffori yn 2003, i ddiwallu'r angen am gwmni theatr Cymraeg. Mae ei bencadlys yn Y Llwyfan, Caerfyrddin. Maes gorchwyl y cwmni yw cyflwyno amrywiaeth o gynyrchiadau theatr eang eu hapêl sy'n cyfoethogi diwylliant theatraidd Cymru gan gynnwys cynyrchiadau prif-ffrwd o ddramâu Cymraeg clasurol; addasiadau i'r llwyfan o glasurol llenyddol Cymraeg, cyfieithiadau ac addasiadau o ddramâu rhyngwladol clasurol; dramâu newydd sy'n cael eu comisiynu a'u datblygu gan y cwmni; cynyrchiadau safle benodol mewn gwahanol leoliadau; a phrosiectau theatr gymunedol a chyfranogol.

Yn 2016 cyflwynodd y cwmni Chwalfa fel y cynhyrchiad agoriadol yng nghanolfan Pontio.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £1,029,567

Theatr lolo

Ffurfiwyd Theatr lolo ym mis Gorffennaf 1987 ac mae'n gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant ac yn elusen gofrestrdig. Mae Theatr lolo, sy'n gwmni theatr ag enw rhyngwladol â'i bencadlys yng Nghaerdydd, yn creu theatr i bobl o bob oed ac yn perfformio ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Mae wedi ymrwymo i greu'r theatr orau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Theatr Mwldan

Mae Theatr Mwldan yn elusen gofrestrdig ac yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant sydd â'i bencadlys yn Aberteifi. Sefydlwyd strwythur presennol y cwmni yn 1992. Ei amcanion yw hybu'r gwaith o hyrwyddo a gwella addysg gyffredinol mewn perthynas â phob agwedd ar y celfyddydau a drama, theatr, cerddoriaeth, dawns a ffilm; gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r rhain drwy gyfwng y Gymraeg a'r Saesneg; cyflwyno, ymchwilio, cynhyrchu, hyrwyddo, trefnu, rheoli a chynnal y fath berfformiadau, cynyrchiadau, digwyddiadau, arddangosfeydd, cyhoeddiadau, gweithgareddau addysgol neu weithgareddau celfyddydol eraill o bryd i'w gilydd fel y gwêl y cwmni'n dda.

Yn dilyn rhaglen helaeth o ddatblygiad cyfalaf, mae gan y lleoliad ddau awditoriwm, oriel sinema bwrpasol, ystafelloedd cyfarfod, caffi a bar.

Mae Theatr Mwldan yn cynnig rhaglen gymysg o ansawdd da o berfformiadau byw ac mae ganddi hefyd raglen helaeth o ffilmiau.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £256,749

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £267,880

Theatr na n'Óg

Mae Theatr na n'Óg, a sefydlwyd yn 1982, yn cynhyrchu theatr i amrywiaeth fawr o gynulleidfaoedd ledled Cymru mewn amrywiaeth o leoliadau yn y ddwy iaith. Mae'n gwmni elusennol wedi'i gyfyngu drwy warant.

Cyfieithiad llythrennol Theatr na n'Óg yw theatr ieuenctid tragwyddol ac mae hyn yn crisialu ethos y cwmni, sef creu theatr sydd â'r pŵer i gyffroi a chyfareddu cynulleidfaoedd o bob oed.

Mae tri phrif faes i'r rhaglen artistig bresennol: Cynyrchiadau i gynulleidfaoedd ifanc; Cynyrchiadau Prif lwyfan, Teuluol a Chymunedol (gan gydgyhyrchu gyda llawer o leoliadau blaenllaw yng Nghymru a'r tu hwnt); ac yn fwy diweddar, datblygu prosiectau Cyfryngau Digidol Creadigol a Rhyngweithiol sy'n darparu ôl-fodolaeth ddigidol i waith byw gan gynnwys ffrydio ar lein ac adnoddau addysgol.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £316,092

Cwmni Theatr y Torch

Mae The Torch Theatre Company (TTC) yn elusen gofrestredig ac yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant a sefydlwyd yn 1977. Mae'n cynnwys awditoriw 295 o seddi, theatr stiwdio 102 o seddi, oriel gelf, cyfleusterau bar a chaffi.

Lleoliad cyflwyno a thŷ cynhyrchu yw'r Torch ac mae'n darparu rhaglen gynhwysfawr ac amrywiol sy'n cynnwys cynyrchiadau theatr mewnol a rhai sy'n ymweld. Mae yna raglenni eang o gerddoriaeth a ffilmiau sy'n cynnwys sgrinio opera a theatr byw. Mae'r Torch hefyd yn gartref i theatr ieuenctid ac mae'r cwmni'n cyflawni gwaith addysg mewn ysgolion a cholegau. Mae'n cefnogi theatr amatur ac yn darparu rhaglen gymharol fach o arddangosfeydd cyfoes.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £447,598

trac - Traddodiadau Cerdd Cymru

trac, a sefydlwyd yn 1997, yw sefydliad datblygu cerddoriaeth werin a thraddodiadol Cymru. Mae trac yn gwmni wedi'i gyfyngu drwy warant ac yn elusen gofrestrdig. Ei rôl yw hybu a datblygu traddodiadau cerddoriaeth a dawns Cymru. Mae'r sefydliad yn gweithio'n strategol gyda'r sector i ddatblygu a darparu prosiectau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd o gerddoriaeth a dawns traddodiadol. Mae hefyd yn gwneud gwaith hyrwyddo a dadleuaeth ac yn darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyfleoedd i rydwethio.

Mae cylch gwaith cenedlaethol gan trac ac mae'n gweithredu'n lleol gyda phrosiectau yn y gymuned. Yn genedlaethol mae ei waith yn canolbwyntio ar ddadleuaeth a datblygiad strategol ac yn rhyngwladol ar gynrychioli cerddoriaeth draddodiadol o Gymru mewn rhwydweithiau byd-eang.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £80,251

Tŷ Cerdd

Mae pencadlys Tŷ Cerdd, sy'n sefydliad corfforedig elusennol, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Ei nodau yw datblygu a hybu'r gwaith o greu a pherfformio cerddoriaeth yng Nghymru a'r tu hwnt.

Yn 1997 dygodd ynghyd Ganolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru a Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru mewn partneriaeth er mwyn gwella'r gwaith o hybu cerddoriaeth Cymru.

Wrth gyflawni ei genhadaeth, mae Tŷ Cerdd yn gweithio ar draws nifer o ddisgyblaethau, gan ymgysylltu â nifer fawr o sefydliadau cerddori cymunedol ar draws Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gorau, cerddorfeydd, cymdeithasau, bandiau pres a chyfansoddwyr.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £284,525
(gan gynnwys £80,000 o arian dirprwyedig y Loteri)

Celfyddydau Cymuned Cwm a Bro

Mae pencadlys Celfyddydau Cymuned Cwm a Bro mewn capel wedi'i addasu ym mhentref cyn-lofaol ac ardal Cymunedau yn Gyntaf Betws, ger Pen-y-bont ar Ogwr. Fe'i sefydlwyd yn rhan gyntaf y 1980au, a'i nod yw dod â phobl ynghyd mewn grwpiau ac mewn cymunedau sydd yn aml wedi'u hymyleiddio, yn agored i niwed neu'n wynebu risg, gan weithio mewn ffordd gynhwysol ledled sir Pen-y-bont ar Ogwr, a'r tu hwnt.

Mae staff Cwm a Bro a'r teulu estynedig o hwyluswyr celfyddydau ar eu liwt eu hunain yn cynorthwyo cyfranogwyr i gyflawni eu potensial a chreu cyfleoedd i newid drwy'r broses greadigol. Mae Cwm a Bro'n creu partneriaethau gyda sefydliadau o lawer o fathau yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys sectorau iechyd, addysg, cyfiawnder troseddol a chynhwysiant cymdeithasol.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £175,147

Plant y Cymoedd

Mae Plant y Cymoedd, y mae ei phencadlys ym Mhen-y-graig yn y Rhondda, yn elusen gofrestredig sydd â hanes hir o weithio gyda phlant a theuluoedd difreintiedig. Ers mwy na 30 o flynyddoedd, mae wedi gweithio gyda phobl sy'n byw yng nghymunedau'r Cymoedd, gan eu grymuso i newid eu bywydau er gwell.

Mae cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru'n cyfrannu at ArtWorks, prosiect Celfyddydau Ieuenctid bywiog a thrawsnewidiol sy'n un o feysydd gwaith pwysig Plant y Cymoedd. Mae'n darparu amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol, gyda phwyslais ar waith theatr a drama, i bobl ifanc rhwng 8 a 25 oed.

Yn ogystal â bod a'i thîm penodol ei hun o weithwyr celfyddydau ieuenctid, mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda staff ieuenctid a chymunedol Plant y Cymoedd. Mae ArtWorks yn targedu'r bobl ifanc sy'n fwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hymyleiddio mwyaf, ac yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y mynediad gorau posibl i'w wasanaethau.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £122,383

Cwmni Theatr Volcano

Mae Cwmni Theatr Volcano wedi'i gorffori o dan Ddeddf Cwmnïau 1985 fel cwmni preifat wedi'i gyfyngu drwy warant. Er y caiff ei adnabod yn bennaf am ei theatr gorfforol, mae'r cwmni'n cynhyrchu amrywiaeth o waith – addasiadau o glasuron, darnau dyfeisiedig gwreiddiol, dramâu newydd a digwyddiadau safle benodol.

Mae Volcano'n cynhyrchu gwaith arbennig o danbaid ac uniongyrchol, ac nid yw'n ofni creu sioc neu herio. Mae ei waith yn ymdrechu i fynd i'r afael â rhai o broblemau mwyaf taer ac anodd ein hoes – amgylcheddol, gwleidyddol a chymdeithasol. O'i gartref ar y Stryd Fawr yn Abertawe, mae Volcano wedi parhau i gyfrannu mewn ffyrdd arloesol at y gwaith o drafod, cyflwyno a deall celfyddyd yn y parth cyhoeddus.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £209,204

Opera Cenedlaethol Cymru

Cafodd Opera Cenedlaethol Cymru ei sefydlu yn 1946 a'i gorffori yn 1948, ac mae'n elusen gofrestredig. Ei amcanion yw llwyfannu operâu a mynd â nhw ar daith o'i gartref yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, ledled Cymru a Lloegr.

Mae'n rhoi oddeutu 46 o berfformiadau mewn tri lleoliad ar draws Cymru ac yn teithio i ddeg lleoliad arall yn Lloegr. Caiff y cwmni ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Arts Council England.

Mae'r cwmni hefyd yn darparu amrywiaeth o weithgarwch addysgol a chymunedol drwy ei raglen arobryn, WNO MAX, yn ogystal â pherfformio cyngherddau a recordiadau. Caiff oddeutu 212 o bobl eu cyflogi'n barhaol gan y cwmni, sydd â throsiant blynyddol o oddeutu £17 miliwn.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £4,533,977

Canolfan Mileniwm Cymru

Agorodd Canolfan Mileniwm Cymru yn 2004. Erbyn hyn mae'n sefydliad diwylliannol arwyddocaol a sefydledig sy'n parhau i ymestyn ystod a gwella ansawdd ei weithgareddau artistig.

Mae'r Ganolfan yn denu cynulleidfa o oddeutu 400,000 bob blwyddyn am berfformiadau â thocynnau a rhai di-dâl. Mae hefyd yn denu mwy na miliwn o ymwelwyr achlysurol bob blwyddyn, sy'n golygu mai'r Ganolfan yw atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd Cymru ac un o'r atyniadau diwylliannol mwyaf poblogaidd yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Lundain. Gweledigaeth y Ganolfan yw bod yn dirnod diwylliannol a chanolfan o arwyddocâd rhyngwladol i'r celfyddydau perfformio.

Mae Canolfan Mileniwm Cymru'n cynnal oddeutu 1,000 o swyddi ar y safle ac mae'n gartref i wyth cwmni creadigol, y mae pedwar ohonynt yn gwmnïau cenedlaethol, sef Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Llenyddiaeth Cymru.

Y pedwar cwmni preswyl arall yw Cwmni Theatr Hijinx, Ymddiriedolaeth Touch, Tŷ Cerdd ac Urdd Gobaith Cymru.

Mae gan y Ganolfan ddwy theatr, Theatr Donald Gordon, sydd â 1,900 o seddi, a Stiwdio Weston, sydd â 250 o seddi. Mae rhaglen theatr 'lyric' Donald Gordon yn cynnwys yn bennaf opera, dawns glasurol a dawns gyfoes, syrcas, theatr gerdd, rhywfaint o ddrama a chomedi. Y theatr hon yw cartref Opera Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £3,537,917 (refeniw)
£300,000 (cyfalaf)


Y Neuadd Les, Ystradgynlais

Daeth y Neuadd Les, Ystradgynlais, yn aelod newydd o'r Portffolio yn 2016. Cafodd ei hadeiladu yn wreiddiol yn 1934 diolch i gyfraniadau o geiniog yr wythnos gan fwyngloddwyr lleol i greu canolfan dysg, hamdden a datblygiad.

Heddiw mae'n lleoliad cymunedol a chelfyddydol, gyda sinema, theatr a chyfleusterau y gellir eu llogi ar gyfer achlysuron. Mae'n ymdrechu i gynnal rhaglen celfyddydau, adloniant a chelfyddydau cyfranogol yn ogystal â darparu adnodd cymunedol cyffredinol i'r ardal, gan ddenu oddeutu 40,000 o fynychiadau yn y sinema, theatr a gweithdai celfyddydau cyfranogol yn ogystal ag achlysuron cymunedol neu breifat.

Arian oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru £41,609

Atodiad 3: Strwythur Llywodraethu Cyngor Celfyddydau Cymru



■ Is-bwyllgor i'r Cyngor

■ Pwyllgor Cynghori

■ Grwpiau Prosiectau / Gorchwylion Staff

Atodiad 4: Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru 2019/20

Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism



Dr Phil George
Cadeirydd
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd,
CF10 5AL

26 Mawrth 2019

Annwyl Phil

Hoffwn ddechrau drwy eich llongyfarch ar flwyddyn lwyddiannus arall i Gyngor Celfyddydau Cymru yn ystod 2018-2019. Roedd eich llwyddiannau yn cynnwys:

- datblygiad parhaus y cynllun *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*, gan gynnwys yr Ŵyl Dysgu Creadigol Genedlaethol a 32 o ysgolion yn arddangos eu gwaith yn Oriel Tate yn Llundain
- llwyddiant parhaus drwy ymestyn mentrau Celfyddydol a lechyd, a llofnodi cynllun gweithredu ar y cyd gyda Confederasiwn GIG Cymru
- blwyddyn hynod llwyddiannus 'Blwyddyn Cymru' yng Ngŵyl Lorient ym mis Awst
- lansio eich Strategaeth Rhyngwladol
- agor Tŷ Pawb fel canolfan gelfyddydol gymunedol yn Wrecsam
- llwyddiant Gorwelion Byw, a llwyddiant Alfa o fod y perfformwyr cyntaf yn yr iaith Gymraeg i ffrydio 1 miliwn o weithiau ar Spotify
- Sefydlu Anthem, Gwaddol er Cerddoriaeth Cymru.

Rwyf hefyd yn cymeradwyo llwyddiannau y nifer o sefydliadau a dderbyniodd gefnogaeth gennych yn y flwyddyn ddiwethaf, i gynnwys:

- *Home, I'm Darling* a *The Assassination of Katie Hopkins* gan Theatr Clwyd
- *Nyrsys* gan Theatr Genedlaethol Cymru
- The Olivier Award i Theatr y Sherman
- Artes Mundi 8
- Taith Cerddorfa Genedlaethol y BBC o amgylch Tsieina
- Llwyddiant Theatr Hijinx wrth ennill Gwobr Ryngwladol The Stage
- Taith y Cwmni Dawns Cenedlaethol o amgylch Yr Almaen a'r Swistir.

Rwy'n edrych ymlaen at barhad y gwaith hwn yn ystod y flwyddyn a ddaw.

Rwy'n parchu eich statws elusenol a'r ffaith bod gennych Siarter Brenhinol, a'r angen i Gyngor Celfyddydau Cymru weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd ac wrth gymryd penderfyniadau unigol ynghylch cyllido. Fodd bynnag, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, dylai amcanion Cyngor y Celfyddydau adlewyrchu polisiâu Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyr hwn yn pennu nifer o flaenoriaethau yr hoffem ichi eu hystyried wrth baratoi eich Cynllun Gweithredol ar gyfer 2019-20 ac yn y blynyddoedd dilynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Blaenoriaethau

Yn ogystal â'i waith craidd, fel y'i amlinellir yn ei Siarter, mae fy mlaenoriaethau ar eich cyfer yn ystod y flynyddoedd nesaf wedi eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae Atodiad 2 yn cadarnhau lefel y cyllid Grant fydd Llywodraeth Cymru yn ei roi ichi ar gyfer 2019-20. Darperir ffigyrau ar gyfer 2020-21 a 2021-22 maes o law.

Mae cyd-destun strategol ein gwaith yn ystod y blynyddoedd o'n blaen yn debyg i 2018-19. Mae strategaethau perthnasol y Llywodraeth, gan gynnwys 'Ffyniant i Bawb', 'Golau yn y Gwyll', Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'n Cynllun Gweithredu Economaidd - pob un ohonynt yn nodi fframwaith clir ar gyfer gweithio y dylid ei gynnwys yn eich Cynllun Gweithredol.

Datblygiad pwysig yn ddiweddar yw'r penderfyniad gan fy nghydweithwraig Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Mae'r Gweinidog wedi ei wneud yn glir ei bod yn disgwyl i Gyngor y Celfyddydau, drwy waith ei dîm rhyngwladol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, chwarae rhan bwysig yn natblygiad y strategaeth hon. Beth bynnag yw canlyniadau'r trafodaethau dros ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, ni fydd Cymru yn troi ei chefn ar y byd ac ar ein cymdogion agosaf yn yr UE. Yn y cyd-destun hwn, mae gan sector y celfyddydau swyddogaeth allweddol o helpu i hyrwyddo Cymru, ac o greu cyfleoedd newydd economaidd a diwylliannol.


Rwyf hefyd yn gweld y pwyslais newydd ar gydraddoldeb yn eich Cynllun Corfforaethol 'Er Lles Pawb', a phwysigrwydd cyrraedd a chysylltu â chynulleidfa ehangach yn eich gwaith, boed hynny fel cynulleidfa neu drwy gymryd rhan. Rwy'n croesawu'r ymrwymiad hwn. Fel chithau, rydym yn teimlo bod gormod o gymunedau yng Nghymru yn cael eu hatal rhag mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. O fewn cyd-destun deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, rwyf yn disgwyl i'ch dull o gysylltu a chynnwys pawb fod yn benodol a chlr.

Dylech gynnwys yr holl gamau uchod yn eich Cynllun Gweithredu drafft a dylai Llywodraeth Cymru ei dderbyn gennych cyn gynted a phosib er mwyn cymeradwyo'r amcanion, y targedau a'r dangosyddion perfformiad perthnasol o fewn y cynllun.

Fe wyddoch am awydd Llywodraeth Cymru i weld partneriaethau a chyrrff a noddir yn symud tuag at gylch gwaith Tymor y Llywodraeth. O fewn y cyd-destun hwn, hoffem ichi ystyried y llythyr hwn fel sail i'n perthynas tan ddiwedd y Tymor Llywodraeth presennol yn 2021.

Rwyf yn disgwyl i'r berthynas rhyngom fod yn un sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr ac ar gyfathrebu agored a gonest. Rwy'n edrych ymlaen at weld hyn yn parhau ac at ddysgu mwy am eich gwaith yn ystod y flynyddoedd a ddaw o'ch Cynllun Gweithredol.

Yn gywir



Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Atodiad 1: Yr hyn y bydd y prosiect yn ei gyflawni

1. Unedig a Chysylltiedig

"Ein nod yw creu cenedl ble y mae pobl yn ymfalchiö yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd."

Mae gan ein sefydliadau diwylliannol y gallu i helpu a grymuso pobl o bob cefndir i gyfrannu at y bywyd diwylliannol, ac i helpu gyda'r broses o greu cymunedau cydlynol. Hoffem i Gyngor y Celfyddydau:

- Parhau i sicrhau bod ein buddsoddiad yn galluogi hyd yn oed mwy o bobl i gyfrannu at y celfyddydau, ac i fynd i'r afael â'r heriau sy'n rhwystro hyn.
- Parhau i gefnogi cyfleoedd diwylliannol i bobl ifanc.
- Parhau i annog a datblygu cyfraniad y sector celfyddydau at '*Cyfuno*' *Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant*, ac os yn bosibl ein helpu i sicrhau bod y rhaglen hon yn datblygu ac yn ehangu.
- Annog awdurdodau lleol i barhau â'r gefnogaeth i wasanaethau, prosiectau a chanolfannau celfyddydol lleol, ac i fentrau cenedlaethol megis ensemble cenedlaethol ieuenctid.
- Parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r celfyddydau yn yr iaith Gymraeg a thrwy'r Gymraeg.
- Hyrwyddo swyddogaeth y celfyddydau wrth gefnogi adfywio yn seiliedig ar le, gan gynnwys cyfleoedd i gefnogi prosiectau mawr megis Prifddinas-ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe.

Mae gan Gyngor y Celfyddydau ran allweddol i'w chwarae i helpu Cymru i fod yn genedl mwy creadigol, drwy gynnig cyfleoedd diwylliannol i bobl o bob cefndir. Hoffem i chi:

- Annog cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol, a'i gael i gyrraedd mwy o bobl o amrywiol gynulleidfaoedd, ac annog sefydliadau celfyddydol i sicrhau bod mwy o bobl o gymunedau lleiafrifol a grwpiau difreintiedig yn gweld eu gwaith.
- Cefnogi'r gwaith parhaus o ddichonoldeb creu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.
- Parhau i eirioli i awdurdodau lleol gefnogi addysg gerddorol, a ble'n bosibl helpu pobl i ddarparu'r argymhellion ar gyfer "*Taro'r Tant*: Ymchwilio i Gyllid a Mynediad i Addysg Gerddorol.

Mae gan Gyngor y Celfyddydau ran bwysig i'w chwarae yn arddangos ein diwylliant bywiog a'n hiaith i gynulleidfa **ryngwladol**, a helpu'r sector celfyddydau i ddatblygu marchnadoedd newydd.

- Gweithio gyda'r celfyddydau a swyddogion cysylltiadau rhyngwladol i lywio strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, yn benodol ar ffyrdd y gall y sector celfyddydol helpu i hyrwyddo Cymru, a defnyddio cyfleoedd economaidd dramor.

- Cynnal a datblygu cysylltiadau rhyngwladol cyfredol, gan gynnwys y rhai hynny o fewn yr UE ac India; ein helpu i sicrhau bod Cymru yn cael cynrychiolaeth deg yn y mentrau diwylliannol perthnasol gan y DU dramor.
- Parhau i gefnogi memorandwm dealltwriaeth ddiwylliannol Llywodraeth Cymru gyda Tsieina
- Cyfrannu at Flwyddyn Ieithoedd Brodorol UNESCO

2. Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu

"Ein nod yw creu awydd i ddysgu ym mhawb drwy gydol eu bywydau"

Gall sefydliadau diwylliannol ehangu gorwelion pobl a'u gwneud yn fwy uchelgeisiol, gan gynnig cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae gennych swyddogaeth bwysig o gefnogi pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial ac i annog 'dysgu am oes'. Hoffem ichi:

- Cefnogi pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial ac annog dysgu am oes, drwy barhau i arwain ar y fenter lwyddiannus *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*, a thrwy helpu i ddatblygu Cwricwlwm newydd i Gymru, yn benodol y Maes Dysgu a Phrofiad 'Celfyddydau Mynegiannol'.
- Parhau i gefnogi datblygiad 'Anthem - Cronfa Gerdd Cymru', i helpu'r sefydliad hwn i fod yn hollol effeithiol.

Cymru ffyniannus a diogel

"Ein nod fel economi Cymru yw darparu ffyniant unigol a chenedlaethol tra'n lledaenu cyfleoedd a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb..."

Mae gan y celfyddydau ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi pobl a busnesau i sbarduno llewyrch. Felly hoffwn eich annog i gydweithio â sefydliadau eraill, gan gynnwys Gyrfa Cymru a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol i wella llwybrau gyrfaedd a mynd i'r afael â'r gofynion ar gyfer sgiliau arbenigol o fewn y sector celfyddydol. Hoffem i chi:

- Dilyn egwyddorion ein *Contract Economaidd*, yn cynnwys twf, gwaith teg, iechyd a sgiliau yn y gweithle a rheoli olion traed carbon. Mae'r Contract Economaidd yn llunio rhan o'n Cynllun Gweithredu Economaidd, ac mae'n ddull pwysig o ddarparu buddsoddiad cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol.
- Cydweithio â phartneriaid perthnasol i hyrwyddo y gyrfaedd sydd ar gael yn y celfyddydau, a datblygu mwy o brentisiaethau, hyfforddeiaethau a chyfleoedd mentora.
- Parhau i ddatblygu y 'Rhaglen Wytwnch' a gwasanaethau eraill wedi'u teilwra i helpu eich cleientiaid refeniw, ac eraill o bosibl, i wella eu sgiliau busnes a marchnata, ac arferion da wrth lywodraethu.
- Parhau i weithio i gynyddu'r cyllid o ffynonellau allanol i leihau y graddau y mae'r sector celfyddydol yn dibynnu ar gymorthdaliadau cyhoeddus, gan gynnwys Cymorth Grant Llywodraeth Cymru. Fel rhan o hyn, gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i weithredu yr argymhellion o fewn adroddiad Ymchwilad Cenedlaethol y Cynulliad ar '*Cyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau*'.

Cymru Iach ac Egniol

"Ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, i unigolion, teuluoedd a chymunedau...ac i newid ein dull o weithio o lesiant i atal".

Gall y sector celfyddydol gefnogi ymdrechion ehangach i greu yr amodau iawn ar gyfer iechyd a llesiant gwell a mwy o weithgarwch corfforol a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol drwy gynnig cyfleoedd i bobl oedrannus a phobl sydd â chyflyrau corfforol a meddyliol i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Hoffem i chi:

- Ychwanegu at Astudiaeth Fapio y Celfyddydau mewn Iechyd yng Nghymru, drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Conffederasiwn y GIG a'r sector celfyddydol i (i) wella'r dystiolaeth sylfaen ar gyfer ymyraethau 'y celfyddydau mewn iechyd', a (ii) uwchraddio'r ymyraethau hynny sydd wedi bod yn effeithiol wrth wella iechyd a llesiant pobl.
- Cyfrannu at y blaenoriaeth trawsbynciol 'iechyd meddwl gwell' drwy gefnogi Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd gyda presgripsiynu cymdeithasol a mentrau perthnasol eraill.

Atodiad 2: Cymorth ariannol

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Cymorth Grant isod i Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2019-20 i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y llythyr hwn. Mae ffigurau wedi'u cynllunio wedi'u darparu hefyd ar gyfer 2020-21 (Cyfalaf yn unig). Bydd lefelau cyllido ar gyfer y dyfodol yn cael eu cadarnhau yn ystod proses flynyddol arferol Cyllideb Llywodraeth Cymru.

Gwariant

CYNGOR Y CELFYDDYDAU	Cyllideb 2019-20 £'000	Cynllun cyllidebol 2020-21 £'000
Refeniw : Costau Rhedeg /Gwariant Cyfredol	31,227	-
Dibrisiant*	119	-
Gwariant Cyfalaf**	355	355
Cyfanswm	31,701	355

Mae'r dadansoddiad rhwng gwariant a chostau rhedeg i'w cadarnhau.

* Mae dibrisiant yn eitem nad yw'n arian parod ac nid yw ar gael i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn

** Wedi'i neilltuo o fewn Gwariant Cyfalaf: £300,000 i Ganolfan Mileniwm Cymru

CYFANSWM Cymorth Grant 2019-20

£31,701,000

Telerau ac Amodau'r Cymorth Grant:

Mae cytundeb cyllido Cyngor y Celfyddydau gyda Llywodraeth Cymru (y ddogfen Fframwaith) yn nodi manylion y berthynas noddi a'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Gyngor Celfyddydau Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Darperir cyllid Cymorth Grant i Gyngor y Celfyddydau o dan Adran 61 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r ddogfen Fframwaith hefyd yn nodi amryfal ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau o eiddo'r Llywodraeth y mae angen i Gyngor y Celfyddydau gydymffurfio â hwy, yn ychwanegol at ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel corff sydd â Siarter, fel Elusen Gofrestredig, a sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Fel y nodir yn y Ddogfen Fframwaith, Is-adran Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru (yr Is-adran Celfyddydau) yw'r adran sy'n noddi Cyngor Celfyddydau Cymru ac sy'n monitro ei gynnydd yn erbyn y prif dargedau a'r cerrig milltir drwy gyfarfodydd chwarterol.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

celf.cymru